



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.wales.gov.uk



Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd Cymru 2014-2020

Canllawiau Manwl ar ddefnyddio costau symlach

Fersiwn 4

Mehefin 2021

UNDEB
EWROPEAIDD
EUROPEAN
UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Tabl Cynnwys

ADRAN 1: Cyflwyniad a throsolwg	3
ADRAN 2: Dewisol neu orfodol?.....	5
ADRAN 3: Cymhwyso: pryd y gellir defnyddio costau symlach?.....	8
ADRAN 4: Sut mae 'cyfraddau safonol' yn gweithio?.....	12
ADRAN 5: Sut mae 'costau uned' a 'cyfandaliadau' yn gweithio?.....	166
ADRAN 6: Pennu a chyfiawnhau'r ganran safonol, y gost uned neu'r cyfandaliad	244
ADRAN 7: Cymhwyso costau symlach mewn	355
• Gweithrediadau cydweithredol a gweithrediadau sy'n rheoli cynlluniau grant	35
ADRAN 8: Rheoli ac archwilio.....	38
ADRAN 9: Materion pwysig eraill.....	466
• Cyfuniad o gostau symlach yn yr un gweithrediad	46
• Asesu trothwyon – gweithrediadau ESF bach	47
• Cydymffurfiaeth â'r rheolau ynglŷn â chymorth gwladwriaethol.....	47
• Costau symlach mewn gweithrediadau sy'n cynhyrchu referniw net	48
'Trawsariannu' ERDF ac ESF (hyblygrwydd ar draws cronfeydd)	
• Cofnodi ac archwilio arian cyfatebol (cydgyllido cenedlaethol).....	52
Cyfraniadau ariannol trydydd parti (arian cyfatebol)	
ATODIAD 1: Rhagor o enghreifftiau ymarferol	544
ATODIAD 2: Cydymffurfiaeth costau symlach â'r rheolau ynglŷn â chymorth gwladwriaethol – enghraifft ymarferol.....	60
ATODIAD 3: Costau symlach ar gyfer mesurau EAFRD	63
HANES FERSIYNAU	70

ADRAN 1: Cyflwyniad a throsolwg

Diben y canllawiau

Diben y ddogfen hon yw rhoi canllawiau gweithredol manwl ar y costau symlach sy'n gymwys i Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yng Nghymru, gyda'r nod o annog y defnydd mwyaf posibl ohonynt er mwyn sicrhau trefniadau symlach i fuddiolwyr.

Enghreifftiau yn unig yw'r opsiynau a roddir ac ni ddylid eu dehongli'n argymhelliad neu'n ofyniad ar gyfer gweithrediadau tebyg.

Yn bwysig ddigon, yr unig gostau symlach sydd ar gael ar adeg benodol, ar gyfer Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-2020 a reolir gan Lywodraeth Cymru, yw'r rhai a ddisgrifir yn rheolau cenedlaethol Cymru ar gymhwysedd gwaraint *'Rules and Conditions for support from the European Structural and Investment Funds 2014-2020'*.

Mae rheolau cenedlaethol Cymru ar gymhwysedd gwariant yn nodi'r achosion lle mae Rheoliadau'r UE yn caniatáu'r defnydd o gostau symlach (gweithrediadau bach) yn ogystal â'r achosion lle mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cynnig neu ganiatáu, rhai o'r posibiladau eraill a ddarperir o dan y Rheoliadau.

Mae'r ddogfen yn seiliedig ar ganllawiau a baratowyd gan y Comisiwn Ewropeaidd [EGESIF_14-0017, Medi 2014 ac a ddiweddarwyd wedi hynny gan EGESIF_14-0017-02 19 Tachwedd 2020] ond maent hefyd wedi'u haddasu i adlewyrchu'r defnydd arfaethedig o gostau symlach yng Nghymru a therminoleg, arian cyfred lleol ac ati. Mae diwygiadau EGESIF 14-0017-02 yn adeiladu ar y posibiladau a gyflwynwyd yn 2014, ac yn ymestyn y posibiladau hynny, gan ehangu nifer o opsiynau y darparwyd ar eu cyfer mewn rheoliadau cronfeydd penodol i holl gronfeydd ESI.

Pam defnyddio costau symlach?

Cefndir

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd (CE) a Llys Archwilwyr Ewrop o'r farn bod cyfraddau safonol, costau uned a chyfandaliadau (y cyfeirir atynt fel '**costau symlach**' neu **Opsiynau Costau Symlach**) yn ffordd well o gyfrifo costau prosiect cymwys oherwydd, o'u cymharu â'r dull traddodiadol o ad-dalu 'costau gwirioneddol', mae'n ei gwneud yn llai tebygol y bydd gwallau yn digwydd ac mae'n ysgafnhau'r baich gweinyddol ac archwilio cyfatebol ar fuddiolwyr.

Ar gyfer y cyfnod 2014-2020, er mwyn annog cyfranogiad, mae'r CE felly wedi ehangu'r ystod o gostau symlach i'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn ogystal â chronfeydd eraill yr UE (Horizon 2020, Erasmus + er enghraifft).

Manteision costau symlach

Lle y defnyddir costau symlach, cyfrifir costau cymwys yn unol â dull rhagnodedig sy'n seiliedig ar weithgareddau, allbynnau, canlyniadau neu fel canran benodol o rai costau eraill.

Ni fydd angen olrhain pob punt o wariant at ddogfennau ariannol ategol unigol - megis archebion prynu, anfonebau a chyfriflenni banc - mwyach: dyna bwynt allweddol costau symlach gan eu bod yn **ysgafnhau'r baich gweinyddol** yn sylweddol.

Mae defnyddio costau symlach hefyd yn golygu y gall yr adnoddau dynol a'r ymdrech weinyddol sydd ynghlwm wrth reoli'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd **ganolbwyntio mwy ar gyflawni amcanion polisi** yn hytrach na chasglu a dilysu dogfennau ariannol.

Gallai hefyd ei gwneud yn haws i fuddiolwyr bach gael gafael ar y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd a/neu i'r sector preifat gymryd rhan yn ehangach oherwydd symleiddio'r broses reoli.

Mae costau symlach hefyd yn cyfrannu at ddefnydd mwy cywir o'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (**cyfraddau gwallau is**). Ers blynyddoedd lawer mae Llys Archwilwyr Ewrop wedi argymhell droeon y dylai'r CE annog ac ymestyn y defnydd o gostau symlach, yn enwedig o ran yr ESF.

ADRAN 2: Dewisol neu orfodol?

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-2020 a reolir gan Lywodraeth Cymru, sef:

- Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD)
- Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)
- Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)

Mae deddfwriaeth yr UE ond yn mynnu'r defnydd o gostau symlach ar gyfer **gweithrediadau ESF bach**. Y tu hwnt i hyn, awdurdodau rhaglenni perthnasol (h.y. yng Nghymru, Llywodraeth Cymru) sy'n penderfynu i ba raddau y caiff costau symlach eu defnyddio ac a ydynt yn ddewisol neu'n orfodol.

Nodir manylion y costau symlach sydd ar gael yn rhaglenni Cymru, ac a ydynt yn ddewisol neu'n orfodol, yn *'Rules and Conditions for support from the European Structural and Investment Funds 2014-2020'* (dolen isod) a gallant newid drwy gydol cyfnod y rhaglenni, gydag unrhyw newidiadau ond yn weithredol i weithrediadau newydd a gymeradwyir o'r adeg honno ymlaen.

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-08/eu-funds-2014-2020-eligibility-rules-and-conditions-guidance_0.pdf

Mewn achosion lle mae'r defnydd o gostau symlach yn orfodol i rai, ond nid i bob gweithrediad, neu lle y cynigir Opsiynau Costau Symlach, caiff y cwmplas dan sylw - h.y. y math o weithrediadau/ prosiectau a gweithgareddau buddiolwyr y bydd costau symlach yn gymwys iddynt - ei nodi'n glir a'i gyhoeddi yn unol ag egwyddorion cyffredinol **tryloywder a thriniaeth gyfartal**.

Pan gaiff costau symlach eu cymeradwyo ar gyfer gweithrediad, nodir yr holl delerau ac amodau perthnasol yn y cytundeb ariannu/ llythyr dyfarnu (y ddogfen gan yr awdurdod sy'n rheoli'r prosiect sy'n amlinellu'r amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth).

Ystyr 'gweithrediad bach' ac eithriadau

Mae'n rhaid i weithrediadau bach ddatgan pob gwariant gan ddefnyddio costau symlach. Yng nghyd-destun costau symlach, diffinnir gweithrediadau 'bach' gan y CE fel 'grants and repayable assistance for which the public support does not exceed EUR 50,000'.

Mae'n rhaid i'r swm hwn gael ei ystyried fel y cymorth cyhoeddus mwyaf **a gaiff ei dalu i'r** buddiolwr, fel y'i nodwyd yng Nghytundeb Ariannu WEFO. Felly mae'r swm

yn cynnwys y cyfraniad disgwylidig gan yr UE a'r arian cyfatebol **cyhoeddus** a gaiff ei dalu i'r buddiolwr.

Felly, nid yw'r swm yn cynnwys unrhyw gyfraniad cyhoeddus a ddarperir gan y buddiolwr ei hun (ei arian cyfatebol ei hun ac felly ni chaiff ei 'dal' i'r buddiolwr) nac unrhyw gyflogau/ lwfansau a delir gan drydydd parti er budd cyfranogwyr ESF (e.e. cyfraniadau cyflogwyr mewn da).

Dim ond ar y cam cymeradwyo arian h.y. yn seiliedig ar wariant a ragwelir/ a raglennir y bydd yr asesiad hwn yn ofynnol. Nid yw'r cymorth cyhoeddus a delir i'r buddiolwr mewn gwirionedd ar ôl i'r gweithrediad gau yn dylanwadu ar y rheol.

Eithriadau

Nid yw costau symlach yn orfodol mewn gweithrediadau bach naill ai:

- Lle nad yw'r gweithrediad yn gymwys i ddefnyddio costau symlach oherwydd bwriedir i'r gweithrediad, neu brosiect sy'n rhan o'r gweithrediad, gael ei **gaffael yn llawn**; neu
- Lle mae'r gweithrediad yn cael cymorth o fewn fframwaith cynllun cymorth gwladwriaethol: mae'n rhaid i reolau'r cynllun cymorth gwladwriaethol gael eu cymhwyso ac felly, cyn caniatáu'r defnydd o gostau symlach, mae'n rhaid i WEFO sicrhau **nad** yw'r rheolau ynglŷn â chymorth gwladwriaethol yn **atal** costau symlach rhag cael eu cymhwyso mewn cynlluniau o'r fath.

EAFRD – Nodyn i staff Llywodraeth Cymru sy'n gweinyddu'r Rhaglen Datblygu Gwledig

Mae'n rhaid i'r awdurdod rheoli sicrhau bod y cyfrifiadau perthnasol o ran costau symlach yn ddigonol ac yn gywir os cânt eu cadarnhau ymlaen llaw ar sail cyfrifiad teg, cyfartal a dilysadwy [esbonnir y fethodoleg hon yn Adran 6].

I'r perwyl hwn, corff **sy'n weithredol annibynnol ar yr awdurdodau sy'n gyfrifol am roi'r rhaglen ar waith** ac sy'n meddu ar yr arbenigedd priodol fydd yn ymgymryd â'r cyfrifiadau neu'n cadarnhau eu digonolrwydd a'u cywirdeb.

Mae'n rhaid i ddatganiad sy'n cadarnhau digonolrwydd a chywirdeb y cyfrifiadau gael ei gynnwys yn y rhaglen datblygu gwledig [gweler Erthygl 62, UE 1305/2013].

Nid oes rhaid i gyfrifiadau o'r fath a'r datganiad uchod **gael eu llunio na'u cyflwyno os** yw'r awdurdod rheoli yn defnyddio un o'r dulliau hyn i gadarnhau'r costau symlach:

- yn unol â'r rheolau ar gyfer cymhwyso graddfeydd cyfatebol o gostau uned, cyfandaliadau a chyfraddau safonol **sy'n gymwys ym mholisiau'r UE** ar

gyfer math tebyg o weithrediad a buddiolwr [gweler Adran 6]

- yn unol â'r rheolau ar gyfer cymhwyso graddfeydd cyfatebol o gostau uned, cyfandaliadau a chyfraddau safonol a gymhwysir **o dan gynlluniau ar gyfer grantiau a ariennir yn gyfan gwbl gan yr Aelod-wladwriaeth** ar gyfer math tebyg o weithrediad a buddiolwr [gweler adran 6]
- Cyfraddau a bennir yn uniongyrchol gan **Reoliad 1303/2013 yr UE**.
- Dulliau penodol o benderfynu ar symiau a bennwyd yn unol â **rheolau penodol cronfa EAFRD**.

Dim ond y fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo'r taliadau sy'n seiliedig ar gostau symlach y dylai'r Cynllun Datblygu Gwledig ei chynnwys. Os nad yw'r fethodoleg hon yn amrywio drwy gydol cyfnod y rhaglenni, ni fyddai'n rhaid i'r rhaglen gael ei haddasu. Os cyflwynir system o gostau symlach fel dull talu o dan fesur penodol, dylai'r rhaglen gael ei haddasu'n unol â hynny.

Cyfeiriwch at Atodiad 3 am restr o fesurau EAFRD sy'n dod o dan gostau symlach.

ADRAN 3: Cymhwyso: pryd y gellir defnyddio costau symlach?

Rheol 1: Dim ond yn achos **grantiau** neu **gymorth ad-daladwy** y dylid defnyddio costau symlach. Felly ni all mathau eraill o gymorth ariannol o Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, megis Offerynnau Ariannol (buddsoddiadau ad-daladwy megis benthyciadau, ecwiti, gwarantau ac ati), ddefnyddio costau symlach [Erthyglau 67 a 68 1303/2013 yr UE].

Rheol 2: Pan gaiff **gweithrediad** cyfan ei roi ar waith **yn gyfan gwbl drwy gaffael**, ni ddylid defnyddio costau symlach.

Rheol 3: Lle y caiff **prosiect**, sy'n rhan o weithrediad ehangach, ei roi ar waith **yn gyfan gwbl drwy gaffael**, ni ddylid defnyddio costau symlach ar gyfer y prosiect penodol hwnnw. Gall prosiectau eraill o fewn y gweithrediad barhau i ddefnyddio costau symlach os na chânt eu rhoi ar waith yn gyfan gwbl drwy gaffael.

Ac eithrio'r rheolau cymhwyso craidd hyn, gellir ystyried costau symlach ar gyfer pob gweithrediad, yn enwedig:

- helpu i ganolbwyntio mwy ar allbynnau a chanlyniadau yn lle mewnbynnau (gwariant);
- pan fydd 'costau gwirioneddol' yn anodd eu dilysu a'u profi (llawer o eitemau cost isel nad ydynt yn cael fawr ddim effaith, os o gwbl, ar allbwn disgwylidig y gweithrediad, mae angen methodolegau dosrannu cymhleth ac ati;
- pan fydd mwy o risg na chaiff dogfennau cyfrifyddu eu cadw'n briodol (gan sefydliadau bach neu gydweithrediadau dros dro er enghraifft); neu
- pan fydd y gweithrediad eisoes wedi'i gysoni â fframwaith ariannu cenedlaethol safonol neu pan fydd costau symlach eisoes wedi'u pennu ar gyfer mathau tebyg o weithrediadau a buddiolwyr o dan gynlluniau cenedlaethol a ariennir drwy arian cyhoeddus (y DU/ Cymru neu leol).

Ystyr 'wedi'i gaffael yn llawn'

Ystyr hyn yw **wedi'i osod ar gontract allanol** gyda gweithgarwch y prosiect yn cael ei roi ar waith **yn gyfan gwbl** drwy gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau [Erthygl 67(4) 1303/2013 yr UE].

Mae'r buddiolwr yn cadw tasgau gweinyddu a rheoli prosiect craidd yr UE - er enghraifft, ymgymryd â'r gweithdrefnau caffael, rheoli perfformiad contractau, talu

anfonebau, cyflwyno hawliadau talu i awdurdodau rhaglenni'r UE - ond contractwyr, cyflenwyr neu ddarparwyr gwasanaethau sy'n gyfrifol am **gyflawni gweithgarwch prosiect cysylltiedig**.

Er bod caffael llawn yn golygu nad yw costau symlach Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn gymwys, mae'n bosibl o hyd i daliadau cytundebol, gan y buddiolwr i'r contractwr, fod yn seiliedig ar gostau uned, cyfandaliadau neu gyfraddau safonol y cytunwyd arnynt os cytunir mai dyna'r telerau prisio a ffeirir ar gyfer y contract. Mae'r anfonebau a delir drwy gcontractau o'r fath yn 'gostau gwirioneddol' o hyd (yr eir iddynt yn wirioneddol ac a delir gan y buddiolwr) er y gall fod wedi'i ddiffinio yn y contract ei hun fel graddfa safonol o gostau uned, cyfandaliadau, neu symiau cyfradd safonol. Nid yw'r darpariaethau ynglŷn â chostau symlach a nodir yn Rheoliadau'r UE a'r canllawiau hyn yn gymwys oherwydd ystyrir eu bod yn 'gostau gwirioneddol' yn hytrach na chostau symlach.

Enghraifft (ESF)

Os bydd buddiolwr yn darparu cwrs hyfforddiant drwy gaffael, mae'n bosibl y gall y buddiolwr, yn y cais am dendrau, ofyn i'r cynigwyr **gynnig pris ar sail cost uned** fesul hyfforddai sy'n cael ei ardystio ar ddiwedd y cwrs.

Felly gallai telerau'r contract fod fel a ganlyn: hyfforddai wedi'i ardystio = £1,250 sy'n daladwy i'r contractwr.

Os caiff 10 o hyfforddeion eu hardystio ar ddiwedd y cwrs, gall y buddiolwr ddatgan £12,500 o wariant cymwys i WEFO.

Bydd y swm hwn o £12,500 yn cael ei ystyried ar sail 'cost wirioneddol', sef y swm a delir i'r contractwr. Felly bydd rheolaeth neu archwiliad o'r gwariant hwn yn cynnwys gwirio'r weithdrefn gaffael a chydymffurfio â thelerau'r contract (yn yr enghraifft hon, bod **prawf bod hyfforddai wedi'i ardystio** ar gyfer pob cost uned a dalwyd). Ni chaiff costau sylfaenol yr hyfforddiant y mae'r contractwr yn mynd iddynt (rhentu cyfleusterau, costau staff...) eu gwirio gan nad yw'r contract yn darparu ar gyfer ad-dalu ar y sail hon.

Lle mae costau symlach ar gael i weithrediad, am nad yw'r gweithrediad wedi'i gaffael yn llawn, yna mae'n rhaid penderfynu a ellir eu cymhwyso at bob un o elfennau'r gweithrediad neu rai elfennau yn unig.

Er mwyn asesu pa brosiectau, o fewn gweithrediad ehangach, y gellir cymhwyso costau symlach atynt, mae angen diffinio'r prosiectau **ar y lefel isaf bosibl**.

Yng Nghymru, mae gweithrediad yn cynnwys un **prosiect** neu grŵp o **brosiectau** a chaiff ei roi ar waith drwyddo neu drwyddynt. Am ragor o fanylion ynglŷn ag ystyr 'prosiect' yng ngweithrediadau'r Cronfeydd Strwythurol, gweler y ddogfen ganllaw ar

wahân 'WEFO Delivery Models 2014-2020'. Yn yr un modd, mae Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru yn egluro ystyr 'gweithrediad' mewn perthynas â buddsoddiadau a gefnogir gan EAFRD.

Er mwyn cymhwyso'r rheolau 'wedi'u caffael yn llawn', gallai'r gwahanol 'rannau o'r gweithrediad' fod yn **brosiectau** (buddiolwyr gwahanol) neu **weithgareddau ar wahân** o fewn prosiect (yr un buddiolwr) – gweler enghraifft ERDF isod.

Os bydd y buddiolwr yn gosod yr holl waith o roi rhai o'r prosiectau neu'r gweithgareddau ar waith mewn gweithrediad ar gontract allanol drwy gontractau wedi'u caffael, ni ellir cymhwyso costau symlach **at y prosiectau na'r gweithgareddau hynny** sy'n destun proses gaffael. Mae'r prosiectau neu'r gweithgareddau sy'n weddill yn dal i fod yn gymwys ar gyfer costau symlach am nad ydynt wedi'u gosod ar gontract allanol.

Enghraifft (ERDF):

Mae awdurdod lleol yn cael grant ERDF am yr uchafswm o £1m o gostau cymwys i adeiladu ffordd. Er mwyn gwneud hyn bydd yr awdurdod lleol yn dyfarnu contract gwaith cyhoeddus gwerth tua £700k. At hynny, mae'r awdurdod lleol yn mynd i gostau cysylltiedig o £300k ei hun fel buddiolwr (difeddiannau, costau ymglyfreitha, monitro hynt y prosiect ar lawr gwlad, astudiaethau amgylcheddol a gynhaliwyd gan staff yr awdurdod lleol, ymgyrchoedd, profion ar dderbyn y ffordd ac ati).

Er mwyn asesu pa brosiectau y gellir cymhwyso costau symlach atynt, mae angen diffinio'r prosiectau ar y lefelau isaf posibl. Yn yr achos hwn, **mae i'r gweithrediad ddau weithgarwch penodol** a) contractwr yn adeiladu ffordd b) gweithgarwch cymorth cysylltiedig gan yr awdurdod lleol.

Rhan 1 - ar gyfer y swm o £700k o gostau wedi'u caffael, ni ellir ystyried y rhain ar gyfer costau symlach gan eu bod yn weithgarwch 'wedi'i gaffael yn llawn'.

Rhan 2 - Ar gyfer y swm o £300k o gostau uniongyrchol (gweithgareddau nad ydynt wedi'u caffael yn llawn) ac i'r graddau y mae'r costau hyn yn gymwys o dan ddarpariaethau Cymru a'r UE, gall costau symlach fod yn gymwys e.e. gellid cyfrifo costau anuniongyrchol yr awdurdod lleol ar sail cyfradd safonol (canran o gostau staff uniongyrchol y buddiolwr).

Costau wedi'u contractio mewn prosiectau neu weithgareddau nad ydynt 'wedi'u caffael yn llawn'

Os bydd y buddiolwr ei hun yn cyflawni prosiect yn uniongyrchol (sy'n golygu **cadw rheolaeth lawn dros y broses o reoli'r prosiect a'i roi ar waith** – yn hytrach na gosod y prosiect ar gontract allanol/ heb ei gaffael yn llawn), mae'r costau symlach yn dal i fod ar gael, hyd yn oed os bydd angen i rai o'r **costau** o fewn y prosiect gael

eu contractio (e.e. rhai o gostau rhoi'r prosiect ar waith fel gwasanaethau glanhau, arbenigedd allanol, prynu dodrefn, ac ati).

Yn achos cyfraddau safonol ar gyfer costau anuniongyrchol mewn gweithrediadau 'ymchwil, datblygu ac arloesi' cymwys (yn seiliedig ar gyfradd Horizon 2020 o 25% o gostau cymwys uniongyrchol), mae'n rhaid i werth yr holl **gostau wedi'u caffael gael ei ddidynnu** o gyfanswm y costau uniongyrchol cymwys cyn cymhwyso'r gyfradd o 25%.

At hynny, **ni ddylid ychwaith gynnwys costau adnoddau a ddarperir gan drydydd partïon nas defnyddir ar safle'r buddiolwr, na chostau unrhyw gymorth ariannol i drydydd partïon**, yn y costau ar y sail bod y gyfradd i'w chymhwyso i gyfrifo'r symiau cymwys (heb eu cynnwys mewn costau 'math 1' fel yr esbonnir yn Adran 4).

Contractau 'cyhoeddus' wedi'u caffael yn llawn neu bob contract?

Mae Rheoliadau'r UE ynglŷn â chostau symlach yn cyfeirio at 'gaffael cyhoeddus' o ran gweithrediadau a phrosiectau sydd wedi'u 'caffael yn llawn'. Golyga hyn y gallai caffael gan fuddiolwyr preifat a/neu gontractau nad ydynt yn dod o dan y diffiniad o 'gontract cyhoeddus' (yn unol â Chyfarwydddebau Contractau Cyhoeddus y CE) gymryd rhan o hyd mewn costau symlach. Fodd bynnag, mae'r CE yn argymhell y dylid ymestyn y rheol i gynnwys pob gweithrediad a phrosiect a roddir ar waith drwy gaffael llawn – yn hytrach na chontractau cyhoeddus yn unig – er mwyn parchu'r bwriad i gyfyngu'r costau symlach i grantiau gan gofio bod gan fuddiolwyr y rhyddid i wahodd cynigwyr i gynnig pris ar sail costau uned, cyfandaliadau a chyfraddau safonol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu derbyn argymhelliad y Comisiwn i atal prosiectau/ gweithrediadau a roddir ar waith drwy gaffael llawn rhag defnyddio costau symlach, **p'un a ddaw'r contractau hyn o dan y diffiniad o 'gontract cyhoeddus' ai peidio.**

Anogir buddiolwyr i fynd ati i ystyried costau uned, cyfandaliadau a threfniadau talu tebyg ar sail allbynnau/ perfformiad wrth gyd-drafod telerau ac amodau â chontractwyr.

ADRAN 4: Sut mae 'cyfraddau safonol' yn gweithio?

Yn achos cyfraddau safonol, cyfrifir categorïau penodol o gostau cymwys - y mae'n rhaid iddynt gael eu nodi'n glir bob amser cyn i'r costau godi/ cyn i'r gweithgareddau ddigwydd - drwy gymhwyso canran sefydlog at categorïau **eraill** o gostau cymwys. Cytunir ar y ganran ymlaen llaw, ar gam cymeradwyo arian, ac **nid yw'r ganran yn newid** yn ystod gweithrediad.

Diffinio'r categorïau o gostau

Mewn system ariannu cyfradd safonol ceir uchafswm o dri math o categori o gostau i'w hystyried:

- Math 1: categorïau o gostau cymwys (sy'n cyfrannu at gyfrifo 'math 2')
- Math 2: categorïau o gostau cymwys a gaiff eu cyfrifo drwy ddefnyddio cyfradd safonol;
- Math 3 (*lle y bo'n berthnasol*): categorïau eraill o gostau cymwys: ni chaiff y gyfradd safonol ei chymhwyso atynt ac ni chânt eu cyfrifo â'r gyfradd safonol.

Wrth ddefnyddio cyfraddau safonol mae'n rhaid i'r awdurdod sy'n rheoli'r rhaglen nodi, ar gam cymeradwyo arian, y categorïau o gostau sy'n dod o dan bob math: mae'n rhaid i'r dull arfaethedig o gyfrifo'r gyfradd safonol sicrhau y caiff pob categori o gost ei gynnwys mewn un — a dim ond un — o'r tri math.

Noder, mewn rhai achosion, y gall un math gael ei ddiffinio mewn gwrthgyferbyniad â math arall neu'r mathau eraill (er enghraifft, mewn system lle y ceir costau uniongyrchol (math 1) a chostau anuniongyrchol (math 2), yn unig, gellid ystyried costau anuniongyrchol fel yr holl gostau cymwys nad ydynt yn gostau uniongyrchol cymwys).

Nid yw Rheoliadau'r UE yn rhoi unrhyw gyfyngiad ar categorïau o gostau cymwys a allai gael eu defnyddio ar gyfer cyllido cyfradd safonol. Fodd bynnag, **prif amcan defnyddio cyfraddau safonol yw symleiddio a lleihau'r gyfradd gwallau**. Felly, mae cyfraddau safonol fwyaf addas ar gyfer costau sy'n gymharol isel ac y mae'n gostus eu dilyn e.e. costau anuniongyrchol.

Diffinio costau 'uniongyrchol', costau 'anuniongyrchol' a chostau 'staff'

Mae'r defnydd o gostau symlach yn gofyn am ddiffiniadau clir o'r costau uniongyrchol ac anuniongyrchol a'r costau staff. Mae'r diffiniadau hyn wedi'u cynnwys yn '*Rules and Conditions for support from the European Structural and Investment Funds*'. Mae'r diffiniadau hyn yn cydymffurfio â'r egwyddorion cyffredinol a gynigir gan y CE:

- **Costau uniongyrchol** yw'r costau hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgarwch unigol yr endid (buddiolwr) a lle y gellir dangos y cyswllt â'r gweithgarwch unigol hwn (er enghraifft, drwy gofrestru amser uniongyrchol).
- Mae **costau anuniongyrchol**, ar y llaw arall, yn gostau nad ydynt yn gysylltiedig ag un o weithgareddau unigol yr endid dan sylw neu na allant fod yn gysylltiedig. Byddai costau o'r fath yn cynnwys treuliau gweinyddol, y mae'n anodd pennu'n union y swm y gellir ei briodoli i weithgarwch penodol mewn perthynas â hwy (gwariant gweinyddol/ staff arferol, megis: costau rheoli, treuliau recriwtio, costau cyfrifydd neu lanhawr, ac ati; treuliau ffôn, dŵr neu drydan, ac ati).
- **Costau staff** yw'r costau sy'n deillio o gytundeb rhwng cyflogwr a chyflogai neu gontractau gwasanaeth i staff allanol (cyhyd â bod y costau hyn wedi'u nodi'n glir ac ar wahân i'r costau eraill yn yr anfonebau cyfatebol). Er enghraifft, os bydd buddiolwr yn contractio â hyfforddwr allanol i ddarparu ei sesiynau hyfforddiant mewnol, mae angen i'r anfoneb nodi'r gwahanol fathau o gostau. Caiff cyflog yr hyfforddwr ei ystyried yn gostau staff allanol. Fodd bynnag, ni ellir ystyried, er enghraifft, ddeunyddiau addysgu na chostau teithio a chynhaliaeth sydd wedi'u cynnwys yn yr un anfoneb. Mae costau staff yn cynnwys cyfanswm costau cyflog gros ynghyd ag unrhyw gostau staff cymwys cysylltiedig fel y'u nodwyd yn rheolau cenedlaethol Cymru ar gymhwysedd gwariant e.e. cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr a chyfraniadau cynllun pensiwn.

Mae hyn yn berthnasol i achosion lle bydd y cyflog yn cael ei ad-dalu (yn rhannol) neu ei ariannu gan drydydd parti (e.e. staff uniongyrchol a benodwyd drwy gymhorthdal recriwtio; mae'r gyfradd sylfaenol wedi'i chymhwyso i gyfanswm gwerth y taliad hyd yn oed os bydd rhan ohono'n cael ei dalu gan drydydd parti).

- Gellir ystyried contractau ag unigolion, neu drwy asiantaethau staffio, yn staff allanol ond nid contractau â ffyrniau/ cwmnïau, hyd yn oed os mai cwmni cyfyngedig 'un person' bach ydynt. Felly bwriedir i 'gontractau ag unigolion' gwmpasu, er enghraifft, masnachwyr hunangyflogedig heb eu corffori, gweithwyr llawrydd/ darnau/ portffolio, ymgynghorwyr annibynnol ac ati.
- Nid yw costau **teithiau busnes** yn gostau staff at ddibenion costau symlach.
- **Ni** chaiff cyflogau na lwfansau a roddir er budd **cyfranogwyr ESF** eu hystyried yn gostau staff ychwaith at ddibenion costau symlach.

Costau anuniongyrchol: cyfraddau safonol a ddarparwyd gan Reoliadau'r UE

Dulliau o gyfrifo costau anuniongyrchol

Mae Rheoliadau'r UE yn cynnwys cyfraddau safonol penodol a methodolegau ar gyfer costau anuniongyrchol:

- Hyd at **25% o'r holl gostau uniongyrchol cymwys** os cânt eu cyfiawnhau ymlaen llaw yn unol ag un o'r dulliau cyfrifo o dan Erthygl 67(5) (a) ac (c) o 1303/2013 yr UE.
- Hyd at **15% o gostau staff uniongyrchol cymwys** i gyfrifo'r costau anuniongyrchol. Gall yr awdurdod rheoli ddefnyddio'r 15% yn uniongyrchol heb unrhyw gyfiawnhad.
- Ailddefnyddio cyfradd safonol ar gyfer cynlluniau costau anuniongyrchol sy'n bodoli ym mholisiau'r UE, yn seiliedig ar y rhai a ddefnyddir o dan **Horizon 2020 (25% o gostau uniongyrchol cymwys)** ac o dan **LIFE (7% o gostau uniongyrchol cymwys).**

Opsiynau eraill o ran cyfraddau safonol

Caiff cyfradd safonol o hyd at **40% ei chymhwyso at gostau staff uniongyrchol cymwys** i gyfrifo'r holl gostau cymwys eraill (p'un a ydynt yn gostau anuniongyrchol neu uniongyrchol)

Gall yr awdurdod rheoli gynnig cyfradd safonol o hyd at 40% heb unrhyw gyfiawnhad o'r gyfradd.

Ystyrir bod yr holl gostau ac eithrio costau staff cymwys uniongyrchol – uniongyrchol ac anuniongyrchol – wedi'u cwmpasu gan y cyfrifiad o'r gyfradd safonol.

O 2 Awst 2018: Ar gyfer gweithrediadau a gyflwynwyd gan yr ESF, yr ERDF neu'r EAFRD, bydd cyflogau a lwfansau a dalwyd i gyfranogwyr yn cael eu hystyried fel costau cymwys ychwanegol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gyfradd sylfaenol. Bydd y gyfradd sylfaenol o hyd at 40% yn cael ei chymhwyso i gostau staff uniongyrchol cymwys y gweithrediad.

Dylid nodi bod "lwfansau a chyflogau a delir i gyfranogwyr" yn cynnwys achosion lle bydd cyflogau a lwfansau'n cael eu talu gan y buddiolwr ond hefyd yr achosion lle bydd y cyflogau a lwfansau'n cael eu talu gan drydydd parti, os ystyrir y rhain yn gostau cymwys.

Pennir y gyfradd sydd i'w defnyddio yn rhaglenni ESIF Cymru yn rheolau cymhwyso cenedlaethol Cymru – Rheolau ac Amodau ar gyfer cael cefnogaeth gan Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-2020.

Os bydd WEFO yn penderfynu **peidio â chymhwyso'r un gyfradd ganrannol at bob buddiolwr ESF, neu beidio â chaniatáu i rai buddiolwyr ddefnyddio'r gyfradd safonol**, mae'n CE yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod rheoli allu profi bod egwyddor triniaeth gyfartal yn cael ei pharchu – ni ellir atal buddiolwyr/gweithrediadau dethol rhag defnyddio'r gyfradd safonol yn fympwyol.

- **Cyfradd safonol hyd at 20% i gyfrifo costau staff**

Gellir cyfrifo costau staff ar gyfradd safonol o hyd at 20% o'r costau uniongyrchol (h.y. costau cymwys heblaw am gostau staff). Gellir defnyddio'r gyfradd safonol heb fod gofyniad ar yr awdurdod rheoli i wneud cyfrifiad i bennu'r gyfradd gymwys. Pan ddefnyddir yr opsiwn hwn, ni ellir cyfrifo unrhyw gostau uniongyrchol eraill drwy ddefnyddio cyfradd safonol (mae'n rhaid i gostau uniongyrchol fod yn 'gostau gwirioneddol' er mwyn bod yn sail dros gyfrifo cyfradd safonol costau staff). Mae'r gyfradd safonol hon ar gael i Weithrediadau ESF, ERDF a Gweithredu Tiriogaethol ERDF.

ADRAN 5: Sut mae 'costau uned' a 'cyfandaliadau' yn gweithio?

Egwyddorion cyffredinol

Caiff holl gostau cymwys gweithrediad neu ran ohonynt eu cyfrifo ar sail maint disgwyledig **gweithgareddau, allbynnau neu ganlyniadau** wedi'i luosi â graddfeydd safonol o **gostau uned**, y cytunwyd arnynt ar gam cymeradwyo arian.

Gellir defnyddio'r posibilrwydd hwn ar gyfer unrhyw fath o brosiect, neu ran o brosiect, pan fydd modd nodi a diffinio'r canlynol yn hawdd:

- **meintiau** disgwyledig gweithgarwch, allbwn neu ganlyniad penodol a fyddai'n gyfystyr â chyflawni'r gweithrediad yn llwyddiannus;
- graddfa o **gostau uned** ar gyfer y meintiau hynny.

Fel arfer, mae graddfeydd safonol o gostau uned yn gymwys i feintiau y gellir eu nodi'n hawdd a gallant fod:

- yn seiliedig ar broses - megis costau staff yr awr - gyda'r nod o gwmpasu costau gwirioneddol cyflawni gweithrediad drwy amcangyfrif gorau; neu
- yn seiliedig ar ganlyniadau – megis allbynnau neu ganlyniadau; neu
- yn gyfuniad o fesurau sy'n seiliedig ar broses a chanlyniadau.

Gall awdurdod rheoli nodi gwahanol raddfeydd o gostau uned sy'n gymwys i wahanol weithgareddau.

Enghraifft (costau uned sy'n seiliedig ar allbynnau ESF):

Ar gyfer hyfforddiant TG uwch o 1,000 o oriau a ddarperir ar gyfer 20 o hyfforddeion, gellid cyfrifo'r costau cymwys ar sail [cost yr hyfforddiant fesul awr] x [nifer oriau hyfforddeion]. Câi cost yr awr ei diffinio ymlaen llaw gan WEFO a'i dangos yng Nghytundeb Ariannu WEFO sy'n amlinellu'r holl amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth.

Gan dybio, er enghraifft, fod WEFO yn pennu cost o £7 yr awr o hyfforddiant fesul x hyfforddai, dyweder, byddai'r uchafswm gwariant cymwys i'w ddyrannu i'r prosiect yn cael ei gapio ar 1,000 awr x 20 hyfforddai x £7 yr awr yr hyfforddai = £140,000.

Ar ddiwedd y gweithrediad caiff y costau cymwys terfynol eu pennu ar sail y nifer wirioneddol o oriau fesul hyfforddai (a gallai hyn o bosibl gynnwys rhai absenoldebau y gellir eu cyfiawnhau os cytunir ar hynny â WEFO ymlaen llaw), yn unol â chyfranogiad gwirioneddol hyfforddeion a chyrsiau a ddarparwyd. **Bydd angen o hyd am dafleuni presenoldeb cywir i hyfforddeion sy'n manylu ar**

weithgareddau hyfforddiant gwirioneddol ac sy'n ardystio presenoldeb gwirioneddol hyfforddeion.

Os mai dim ond 18 o bobl a gymerodd ran yn yr hyfforddiant ar ôl cwblhau'r prosiect, chwech ohonynt am 900 awr, 5 ohonynt am 950 awr, 5 ohonynt am 980 awr a'r ddau arall am 1,000 awr, bydd cyfanswm yr oriau x hyfforddeion yn hafal i:

$900 \times 6 + 950 \times 5 + 980 \times 5 + 1,000 \times 2 =$ cyfanswm o 17,050 o oriau o hyfforddiant x hyfforddeion.

Y gwariant cymwys fydd: 17,050 o oriau o hyfforddiant x £7 cost uned = £119,350.

Enghraifft (costau uned sy'n seiliedig ar allbynnau ERDF):

Mae'r buddiolwr, sef Siambr Fasnach, yn trefnu gwasanaeth cynghori i BBaChau y rhanbarth.

Darperir y gwasanaeth hwn gan gynghorwyr y Siambr. Yn seiliedig ar gyfrifon ariannol adran 'cynghori' y Siambr yn y gorffennol, amcangyfrifir bod diwrnod o gyngor yn costio £350 y diwrnod. Caiff y costau cymwys eu cyfrifo ar sail y fformiwla ganlynol: [nifer y diwrnodau o gyngor] x £ 350. Caiff grant ei dalu i'r buddiolwr yn seiliedig ar y gwariant cymwys hwn ar gyfradd ymyrryd grant gymwys (arian cyfatebol cenedlaethol sy'n darparu'r symiau sy'n weddill).

Bydd angen o hyd am daflenni gwaith cywir a dogfennau cysylltiedig er mwyn dangos tystiolaeth o realiti'r gweithgarwch cynghori a phresenoldeb cynghorwyr.

Enghraifft (costau uned sy'n seiliedig ar ganlyniadau ESF):

Gellid ariannu rhaglen cymorth i chwilio am waith sy'n para chwe mis ('y gweithrediad') ar sail graddfeydd safonol o gostau uned (dyweder, £2,000 y person) ar gyfer pob un o'r 20 o gyfranogwyr yn y gweithrediad sy'n cael swydd ac sy'n ei chadw am gyfnod a bennwyd ymlaen llaw, er enghraifft chwe mis. Sefydlwyd cost uned o £2,000 am bob cyfranogwr llwyddiannus gan ystyried y costau ar gyfer pob cyfranogwr. Mae'r swm felly yn cynnwys treuliau ar gyfer cyfranogwyr aflwyddiannus.

Cyfrifo'r gwariant cymwys mwyaf i'w ddyrannu i'r gweithrediad: 20 person x £2,000 y lleoliad = £40,000 o wariant cymwys.

Cyfrifir y costau cymwys terfynol ar sail allbynnau gwirioneddol y gweithrediad: pe bai dim ond 17 o bobl yn cael swydd yn y farchnad lafur ac yn ei chadw am y cyfnod gofynnol, y costau cymwys terfynol y caiff y grant i'r buddiolwr ei gyfrifo yn seiliedig

arnynt fyddai $17 \times £2,000 = £34,000$.

Enghraifft (EAFRD): ‘Buddsoddiadau mewn datblygu ardaloedd coedwigoedd a gwella hyfywedd coedwigoedd’ (Rhaglen Datblygu Gwledig Erthygl 21)

Bydd deiliad coedwig yn cael cymorth i goedwigo a chynnal tri hectar o goedwig am saith mlynedd. Mae'r costau (coedwigo a chynnal a chadw) wedi cael eu diffinio ymlaen llaw gan yr awdurdod rheoli yn dibynnu ar y math o goedwig. Caiff y fethodoleg hon ei chynnwys yn y Rhaglen Datblygu Gwledig. Mae'r costau fel a ganlyn: £2,000 yr hectar am sefydlu'r goedwig ac am ei chynnal a'i chadw, £600 yr hectar am y flwyddyn gyntaf a £500 yr hectar am y blynyddoedd dilynol.

Felly, cyfanswm y costau cymwys fyddai:

$3 \text{ hectar} \times £2000 \text{ yr hectar} + 3 \text{ hectar} \times £600 \text{ yr hectar} + (3 \text{ hectar} \times £500 \text{ yr hectar}) \times 6 \text{ blynedd} = £16,800$

Costau uned ar gyfer costau staff buddiolwr (costau uned yr awr)

Mae Erthygl 68(2) o 1303/2013 yr UE yn cyflwyno rheol newydd er mwyn hwyluso'r defnydd o gostau uned yr awr i gyfrifo costau staff sy'n ymwneud â rhoi gweithrediad ar waith (rheoli a chyflawni):

	costau cyflogaeth gros blynyddol diweddaraf sydd wedi'u dogfennu
Cost uned staff yr awr =	<math>\frac{\text{Oriau cynhyrchiol blynyddol (neu os dymunir, 1,720 o oriau heb gyfiawnhad)}}{\text{Cost uned staff yr awr}}</math>

Mae'r 1,720 o oriau yn 'amser gwaith' blynyddol safonol y gellir ei ddefnyddio'n uniongyrchol, heb fod gofyniad i gyfrifo na chyfiawnhau. Os defnyddiwyd pro-rata o 1,720 fel dynodydd, mae'r un egwyddor yn berthnasol (e.e. ar gyfer staff gyda chontract rhan-amser o 50%, 860 awr fyddai'r dynodydd; felly 860 yw'r uchafswm oriau y gellir eu datgan ar gyfer y staff dan sylw. Ar gyfer staff sydd wedi'u neilltuo i sawl gweithrediad, mae'r cap yn berthnasol pro-rata ar gyfer pob gweithrediad yn eu trefn).

Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r rhifiadur, y costau staff blynyddol diweddaraf sydd wedi'u dogfennu, gael ei gyfiawnhau, a hefyd yr 'oriau cynhyrchiol blynyddol' os na ddefnyddir yr opsiwn o 1,720.

Yn achos prosiect a roddir ar waith dros sawl blwyddyn, mae'r un gyfradd yr awr yn gymwys drwy gydol y cyfnod rhoi ar waith. Fel arall, gall yr awdurdod rheoli ddewis diweddarau cost y staff yr awr unwaith bod data newydd ar gael - yng Nghymru cynhelir adolygiad o'r gyfradd bob 24 mis os gofynnir am hynny gan y buddiolwr, fel y'i nodwyd yn rheolau cymhwysedd cenedlaethol Cymru. Pan gaiff y cyfraddau eu diwygio yn y modd hwn, caiff Cytundeb Ariannu wedi'i ddiweddarau ei gyhoeddi.

Mae'r rhifiadur ond yn ymwneud â'r bobl sy'n gweithio'n uniongyrchol ar y gweithrediad. Gallai fod yn seiliedig ar gyflog gwirioneddol **pob unigolyn** sy'n gweithio ar y gweithrediad **neu gyfartaledd costau cyflogaeth cymwys cyfuniad mwy o gyflogeion, y rhai ar yr un radd, neu rai mesurau tebyg sy'n cyfateb yn fras i lefel cyflog**. Yr opsiwn olaf fydd y dull mwyaf ymarferol, fwy na thebyg, oni bai bod y buddiolwr yn gwybod gyda pheth sicrwydd pwy fydd yr unigolion a enwyd a fydd yn gweithio ar y prosiect(au) wrth iddynt gael eu rhoi ar waith.

Ar ôl cytuno ar y gyfradd, **dim ond yr oriau a weithiwyd mewn gwirionedd** y dylid eu defnyddio i gyfrifo costau staff cymwys yn ystod y gweithrediad. Fodd bynnag, gellir cynnwys hefyd amser i ffwrdd â thâl, megis absenoldeb salwch (dim ond yr elfen nad yw'n adenilladwy), absenoldeb tadolaeth a/neu absenoldeb mamolaeth, gwasanaeth rheithgor etc, wrth gyfrifo costau staff cymwys yn ystod cyfnod rhoi'r gweithrediad ar waith, (a) lle bo'r unigolion wedi'u cyflogi i weithredu/cyflawni'r gweithrediad (b) lle bo amodau safonol eu contractau yn galluogi i'r hawliau hyn gael eu talu ac (c) lle na chafodd yr absenoldeb â thâl ei ystyried pan gyfrifwyd y gyfradd yr awr yn wreiddiol. Felly caiff gwyliau blyneddol/ gwyliau cyhoeddus â thâl eu heithrio wrth gyfrifo'r costau staff cymwys yn ystod cyfnod rhoi'r gweithrediad ar waith, gan eu bod eisoes wedi'u cynnwys wrth gyfrifo'r costau staff yr awr.

Mae 'rhoi gweithrediad ar waith' yn cwmpasu pob un o gamau gweithrediad. Nid yw'n fwriad hepgor costau staff sy'n ymwneud â chamau penodol gweithrediad, er enghraifft y cam 'trefnu' cyn cyflawni a ddefnyddir mewn llawer o weithrediadau WEFO.

Mae rheolau cymhwysedd cenedlaethol Cymru yn nodi'r hyn a gwmpesir gan gostau cyflogaeth gros cymwys.

Lle bo buddiolwr yn dewis peidio â defnyddio'r amser gweithio safonol o 1,720 awr, bydd angen i'r gost cyflogaeth gros flynyddol **ddiweddaraf** (fel y'i cofnodwyd yng nghyfrifon, cofnodion cyflogres, etc, y buddiolwr sy'n cyflogi) - h.y. yr wybodaeth ddiweddaraf adeg cymeradwyo'r cyllid ac nid hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol ddiwethaf y buddiolwr er enghraifft, ynghyd â'r oriau cynhyrchiol blyneddol arfaethedig, gael eu cyfiawnhau i WEFO a'u dilysu gan WEFO. Bydd hyn yn galluogi WEFO i gytuno ar y cyfraddau yn ôl yr awr y bydd buddiolwr yn eu defnyddio ar gyfer ei staff; a bydd y cyfraddau wedyn yn cael eu rhestru fel rhan o'r gymeradwyaeth ar gyfer y gweithrediad.

Ni ellir defnyddio costau cyflogaeth sy'n seiliedig ar ddata hanesyddol y buddiolwr o ystyried bod Rheoliad yr UE yn cyfeirio at y costau cyflogaeth gros blynyddol **diweddaraf** sydd wedi'u dogfennu. Mae'r costau cyflogaeth gros blynyddol diweddaraf sydd wedi'u dogfennu yn golygu cyfnod cyfeirio o flwyddyn yn y gorffennol (**12 mis yn olynol**). Nid oes modd defnyddio data cyfnodau **ar ôl** i'r ddogfen sy'n amlinellu'r amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth (y cytundeb grant/ cytundeb ariannu) gael ei llofnodi;

Gwerth ychwanegol y fethodoleg hon yw na ellir amau'r 1,720 o oriau yn ystod dilysiadau ac archwiliadau.

Enghraifft (ERDF):

Mae mathau penodol o brosiectau sydd wedi'u targedu at BBaChau ym maes ymchwil a datblygu ac arloesi yn aml yn cynnwys costau personél fel elfen allweddol. Mae cymhwyso graddfeydd safonol o gostau uned fel opsiwn yn ddull symlach i'r BBaChau hyn sydd i'w groesawu.

Yn yr achos hwn, mynegir y gost uned am weithgareddau fel cyfradd yr awr a gymhwysir at **oriau a weithiwyd mewn gwirionedd gan y staff**. Fe'i diffinnir ymlaen llaw yn y ddogfen sy'n amlinellu'r amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth sy'n pennu'r uchafswm gwariant cymwys fel yr uchafswm oriau a weithiwyd a ganiateir wedi'i luosi â'r gost uned (costau wedi'u cyfrifo'r staff dan sylw).

Mewn ymgais i gwmpasu'r costau gwirioneddol drwy amcangyfrif gorau ac er mwyn ystyried gwahaniaethau rhwng rhanbarthau a changhennau, diffinnir y gost am uned safonol fel cost staff yr awr yn unol â'r fformiwla ganlynol:

Cost staff yr awr = cyflog blynyddol gros wedi'i rannu ag oriau gwaith cytundebol cyfartalog (gan ystyried gwyliau blynyddol).

Er enghraifft: Cost staff yr awr = £60,000 / (1,980 o oriau – 190 o oriau o wyliau blynyddol) = 60,000/1,790 = £33.52 yr awr.

Cyfrifir gwariant cymwys y gweithrediad fel y gyfradd yr awr wedi'i luosi â'r **nifer gwirioneddol ac wedi'i dilysu o oriau a weithiwyd**. Mae hyn yn gofyn i BBaChau gadw'r **holl ddogfennau ategol ar gyfer oriau a weithiwyd gan staff** ar y prosiect ac mae'n rhaid i'r awdurdod rheoli **gadw'r holl ddogfennau sy'n cyfiawnhau cost staff yr awr**. Mewn egwyddor, mae lleihad yn nifer yr oriau a weithiwyd wedi'i dilysu yn arwain at leihad yn y swm terfynol i'w dalu.

Enghraifft amgen: *Fel uchod ond mae cost staff yr awr yn seiliedig ar 1,720 o oriau heb gyfiawnhad o'r oriau blynyddol.*

Cost staff yr awr = y cyflog blynyddol gros diweddaraf sydd wedi'i ddogfennu wedi'i

rannu â 1,720 o oriau (heb gyfiawnhad).

Er enghraifft: Cyfradd yr awr = £60,000 / 1,720 o oriau = 60,000/1,720 = £34.88 yr awr.

Cyfandaliadau

Mae cyfandaliadau yn debyg iawn i 'gostau uned' yn yr ystyr bod holl gostau cymwys, neu ran o gostau cymwys, gweithrediad yn cael eu cyfrifo ar sail cyfandaliad wedi'i bennu ymlaen llaw (dylai'r ffordd y pennir y cyfandaliad gael ei chyfiawnhau gan yr awdurdod rheoli), yn unol â thelerau rhagnodedig cytundeb ynglŷn â **gweithgarwch/ digwyddiad, carreg filltir/ cam rhoi ar waith neu allbwn**.

Gellid hefyd ddefnyddio trefniant cyfandaliad yn achos grantiau lle nad yw graddfeydd safonol o gostau uned yn ateb priodol, er enghraifft paratoi pecyn cymorth, trefnu seminar lleol bach ac ati.

Cost uned â nifer ddisgwyliedig o **un uned** yw cyfandaliadau i bob diben e.e. seminar i'w gynnal; pecyn cymorth i'w baratoi.

Mae cyfandaliadau yn 'ddeuaidd' eu natur - telir y grant yn llawn os cwblheir telerau rhagnodedig cytundeb ynglŷn â gweithgareddau a/neu allbynnau ond ni thelir unrhyw ran o'r grant os ydynt yn anghyflawn neu yn rhannol gyflawn.

Mae'r posibilrwydd o gyfandaliad yn cymhwyso egwyddor cymesuredd gyda'r nod o leihau'r llwyth gwaith gweinyddol i weithrediadau bach a'i gwneud yn haws i sefydliadau anllywodraethol (ond nid sefydliadau anllywodraethol yn unig) gael gafael ar arian y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.

Enghraifft (ESF):

Mae angen cymorth ar sefydliad anllywodraethol sy'n rheoli gwasanaethau gofal plant i lansio gweithgarwch newydd. Mae'n gwneud cais am gyfandaliad drwy gyflwyno cyllideb fanwl ddrafft i ddechrau'r gweithgarwch a'i gynnal dros gyfnod o flwyddyn. Byddai'r gweithgarwch yn cael ei gynnal yn annibynnol ar ôl y flwyddyn gychwynnol. Er enghraifft, byddai'r cyfandaliad yn cwmpasu gwariant sy'n ymwneud â chyflog unigolyn sy'n gyfrifol am ofalu am y plant yn ystod y flwyddyn, dibrisiant cyfarpar newydd, costau cyhoeddusrwydd sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch newydd hwn a chostau anuniongyrchol sy'n ymwneud â'i reoli a chostau cyfrifyddu, dŵr, trydan, gwres, costau rhent, ac ati).

Ar sail cyllideb fanwl ddrafft ac o'i gymharu â gweithrediadau tebyg, mae'r awdurdod rheoli yn rhoi cyfandaliad o £47,500 sy'n cwmpasu'r holl gostau cymwys hyn. Ar ddiwedd y gweithrediad, byddai'r swm hwn yn cael ei dalu i'r sefydliad anllywodraethol ar sail yr allbwn; pe bai nifer gonfensiynol o **blant ychwanegol (10)**

yn derbyn gofal.

Felly byddai angen cyfiawnhau'r costau gwirioneddol yr aed iddynt mewn perthynas â'r gweithgarwch hwn.

Fodd bynnag, mae'n golygu, pe bai naw yn unig o blant yn derbyn gofal, mai **sero fyddai'r costau cymwys ac ni châi'r cyfandaliad ei dalu.**

Enghraifft (ERDF):

Er mwyn hyrwyddo cynhyrchion lleol, mae grŵp o fentrau bach yn dymuno cymryd rhan mewn ffair fasnachol ar y cyd.

Oherwydd cost isel y gweithrediad, mae'r awdurdod rheoli yn penderfynu defnyddio cyfandaliad i gyfrifo'r cymorth cyhoeddus. Ar gyfer hyn, gwahoddir y grŵp o fentrau i gynnig cyllideb ar gyfer costau rhentu, sefydlu a chynnal y stondin. Ar sail y cynnig hwn, pennir cyfandaliad o £20,000.

Caiff y taliad i'r buddiolwr ei wneud ar sail **prawf ei fod wedi cymryd rhan yn y ffair**. Dylai'r gyllideb o £20,000 y cytunwyd arni gael ei chadw ar gyfer archwiliadau (dilysu cyfrifiad ex-ante o'r cyfandaliad).

Enghraifft (EAFRD): Cynlluniau ansawdd ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a bwydydd (Erthygl 16)

Mae grŵp o ffermwyr sydd wedi cael cymorth i gwmpasu cyfraniad newydd mewn cynllun ansawdd cydnabyddedig am drefnu gweithgarwch hyrwyddo ar gyfer eu cynhyrchion. Mae'r awdurdod sy'n rheoli wedi cyfrifo cost y gweithgarwch fel cyfandaliad (e.e. £15,000 y seminar, o leiaf 50 o gyfranogwyr). Mae'n rhaid i'r grŵp o ffermwyr roi tystiolaeth ei fod wedi cynnal y gweithgarwch a nifer y cyfranogwyr (o leiaf 50).

ADRAN 6: Pennu a chyfiawnhau'r ganran safonol, y gost uned neu'r cyfandaliad

Mae'r adran hon yn esbonio'r holl ddulliau a ganiateir gan Reoliadau'r UE ond cofiwch mai'r unig gostau symlach sydd ar gael yng Nghymru, gan gynnwys y cyfraddau a'r methodolegau a gaiff eu hystyried, yw'r rhai a nodir yn y ddogfen *'Rules and Conditions for support from the European Structural and Investment Funds'*.

Mae Rheoliadau'r UE [Erthygl 67(5) Rheoliad 1303/2013 yr UE ac Erthygl 14(3) ESF] yn cyflwyno sawl dull o gyfrifo costau symlach: mae rhai ohonynt yn seiliedig ar ddata ystadegol, eraill ar ddata'r buddiolwyr neu elfennau wedi'u cynnwys yn Rheoliadau'r UE.

Mae rhai yn rhoi llawer o hyblygrwydd, ond mae eraill yn cynnig sicrwydd cyfreithiol cadarn neu gallant gael eu sefydlu gyda baich gweinyddol cyfyngedig.

Mae'n bwysig sicrhau asesiad priodol ymlaen llaw a dogfennaeth gysylltiedig ynglŷn â'r dull a ddefnyddiwyd, lle y bo angen, gan mai **dim ond rheoli'r cyflawniadau** a ystyrir yn ystod y gweithrediad – yn hytrach na'r costau gwirioneddol yr aethpwyd iddynt ac a dalwyd.

GOFYNIAD ALLWEDDOL: mae'n rhaid i gostau symlach gael eu pennu ymlaen llaw

Mae'n bwysig hysbysu'r buddiolwyr, yn y ddogfen sy'n amlinellu'r amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth (cytundeb ariannu/ cytundebau grant), am yr **union ofynion ar gyfer cadarnhau'r gwariant datganedig a'r allbwn neu'r canlyniad penodol i'w sicrhau**.

Felly, mae'n rhaid i gost symlach gael ei diffinio ymlaen llaw (cyn bod y gweithgareddau a gynorthwyr yn dechrau a/neu yr eir i'r costau gwirioneddol cyfatebol, os yw'n gynharach) ac mae'n rhaid ei chynnwys mewn unrhyw gais am gynigion neu, os defnyddir ceisiadau agored, **yn y ddogfen sy'n amlinellu'r amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth fan bellaf**.

Mae'n rhaid i'r dulliau a'r amodau perthnasol gael eu hymgorffori yn nogfen rheolau cenedlaethol Cymru ar gymhwysedd gwariant.

Unwaith bod cyfraddau costau symlach wedi'u pennu, ni ellir eu newid yn ystod gweithrediad nac ar ôl iddo gael ei roi ar waith er mwyn gwneud iawn am gynnydd mewn costau neu danddefnydd o'r gyllideb sydd ar gael.

O ystyried bod yn rhaid i'r costau symlach gael eu pennu ymlaen llaw, **mae'n rhaid osgoi cymhwyso ôl-weithredol ar gyfer gweithrediadau sydd eisoes yn cael eu rhoi ar waith ar sail costau gwirioneddol** a byddai'n golygu llwyth gwaith

sylweddol i'r awdurdodau cenedlaethol er mwyn sicrhau triniaeth gyfartal rhwng buddiolwyr.

Un eithriad yw gweithrediadau aml-flwydd, lle mae'n bosibl setlo cyfrifon a gweithgareddau cyfatebol y gweithrediad ar ôl i **ran gyntaf y gweithrediad** gael ei chynnal ac yna gyflwyno'r opsiwn o ariannu cyfradd safonol, graddfeydd safonol o gostau uned neu gyfandaliadau ar gyfer y **rhan/ cyfnod o'r gweithrediad sy'n weddill**.

Er enghraifft, gall gweithrediadau WEFO ddatgan costau cymwys sy'n ymwneud â gweithgareddau'r **'cam trefnu'** ar sail costau gwirioneddol ac yna ddewis costau symlach ar gyfer y cam cyflawni. Mewn achosion o'r fath, dylai'r cyfnod y datgenir costau gwirioneddol ar ei gyfer gael ei **nodi'n glir ar wahân** i'r cyfnod y datgenir costau ar ei gyfer ar sail opsiynau costau symlach, er mwyn osgoi datgan costau prosiect ddwywaith.

Cyfraniadau mewn da

Wrth ddefnyddio costau symlach nid oes angen cyfiawnhau costau gwirioneddol y categorïau o wariant a gwmpesir gan y costau symlach gan gynnwys 'costau gwirioneddol' lle y bo'n gymwys, ar ffurf taliadau dibrisiant a chyfraniadau mewn da.

Yn wir, gall cyfraniadau mewn da fel y'u diffiniwyd gan Erthygl 69 Rheoliad 1303/2013 yr UE **gael eu hystyried wrth gyfrifo** gwerth cyfradd safonol, graddfa safonol o gost uned neu gyfandaliad. Fodd bynnag, unwaith y cytunir ar y gyfradd safonol/ cost uned, nid oes angen dilysu bodolaeth cyfraniadau sylfaenol mewn da yn ystod y gweithrediad.

Methodoleg 1: 'Cyfrifiad teg, cyfartal a dilysadwy'

Mae'n rhaid iddo fod yn deg:

Mae'n rhaid i'r cyfrifiad fod yn **rhesymol**, h.y. yn seiliedig ar realiti, yn hytrach na bod yn ormodol neu'n eithafol. Os oes graddfeydd safonol o gost uned wedi arwain at rhwng £10 a £20 yn y gorffennol, ni fyddai'r CE yn disgwyl gweld graddfa o £70.

O'r safbwynt hwn, bydd y dull a ddefnyddir i nodi'r gost uned neu'r gyfradd safonol neu'r cyfandaliad o'r pwys mwyaf. Mae'n rhaid bod yr awdurdod rheoli yn gallu esbonio a chyfiawnhau ei ddewisiadau. Gallai dull cyfrifo teg 'delfrydol' addasu'r cyfraddau yn unol ag amodau neu anghenion penodol. Er enghraifft, efallai y bydd gweithredu prosiect yn costio mwy mewn rhanbarth pellennig na rhanbarth canolog oherwydd costau trafndiaeth uwch; dylai'r elfen hon gael ei hystyried wrth benderfynu ar gyfandaliad neu gyfradd i'w dalu/thalu ar gyfer prosiectau tebyg mewn rhanbarthau gwahanol a/neu wahaniaethau trefol a gwledig.

Sut bynnag, ni ddylid camddefnyddio costau symlach (e.e. ni ddylent arwain yn systematig at chwyddo costau gweithrediadau neu rannu'r gweithrediadau'n artiffisial er mwyn osgoi'r uchafswm cyfandaliad).

Amcan gwaith archwilio a dilysu fydd ystyried y sail a ddefnyddir i bennu'r cyfraddau ac a yw'r cyfraddau a bennir yn y pen draw yn unol â'r sail hon mewn gwirionedd.

Mae'n rhaid iddo fod yn gyfartal:

Y prif gysyniad sy'n sail i'r term 'cyfartal' yw **nad yw ffafrio rhai buddiolwyr neu weithrediadau ar draul eraill**. Mae'n rhaid i'r cyfrifiad o'r costau symlach sicrhau **triniaeth gyfartal** i fuddiolwyr a/neu weithrediadau.

Byddai enghreifftiau yn cynnwys gwahaniaethau mewn cyfraddau neu symiau **na ellir eu cyfiawnhau gan nodweddion gwrthrychol** y buddiolwyr neu'r gweithrediadau, **na chan amcanion polisi penodol**.

Ni fydd awdurdodau rheoli, archwilwyr o'r awdurdod archwilio na'r CE yn derbyn dulliau cyfrifo sy'n **gwahaniaethu** yn erbyn grwpiau penodol o fuddiolwyr neu fathau o weithrediadau **mewn modd na ellir ei gyfiawnhau**.

Mae'n rhaid iddo fod yn ddilysadwy:

Dylai'r ffordd y pennir costau symlach fod yn seiliedig ar dystiolaeth ddogfennol y gellir ei dilysu. Mae'n rhaid bod yr awdurdod rheoli yn gallu dangos ar ba sail y pennwyd yr opsiwn costau symlach. Mae'n fater allweddol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag egwyddor rheoli ariannol cadarn.

Lle y defnyddir Methodoleg 1 i ddatblygu costau symlach, dylai'r **awdurdod rheoli** ddogfennu a chadw trywydd archwilio o'r canlynol o leiaf:

- Y disgrifiad o'r dull cyfrifo, gan gynnwys camau allweddol o'r cyfrifiad;
- Ffynonellau'r data a ddefnyddir ar gyfer y dadansoddiad a'r cyfrifiadau, gan gynnwys asesiad o berthnasedd y data i'r gweithrediadau a ragwelwyd, ac asesiad o ansawdd y data;
- Y cyfrifiad ei hun i bennu gwerth yr opsiwn costau symlach.

Methodoleg 1 yn ymarferol

Mae Rheoliadau'r UE yn nodi sawl posibilrwydd **a fydd yn bodloni'r** meini prawf i fod yn deg, yn gyfartal ac yn ddilysadwy:

- **Y defnydd o ddata ystadegol neu wybodaeth wrthrychol arall**

Gall data ystadegol neu wybodaeth wrthrychol arall fod ar ffurf, er enghraifft, arolygon, ceisiadau am gynigion, meincnodi â mathau tebyg o weithrediadau.

Bydd hyn yn arwain at systemau safonol sy'n **gymwys i lawer o weithrediadau/ buddiolwyr fel arfer**.

Un ffynhonnell bosibl o ddata yw'r gwariant ardystiedig yn y gorffennol. Os nad yw'r data a ddefnyddir wedi'u hardystio, dylai gael eu dilysu gan yr awdurdod rheoli.

Ni ellir defnyddio uchafswm gwerthoedd, fel trothwyon neu derfynau uchaf a osodir mewn rheolau cenedlaethol, mewn egwyddor wrth sefydlu methodoleg neu wrth sefydlu cyllideb ddrafft oni bai y gellir dangos eu bod yn cynrychioli gwerth teg.

Fel arall, gellid cyflwyno ceisiadau am gynigion hefyd: byddai Aelod-wladwriaeth yn cyhoeddi ymlaen llaw ar ba sail y mae'n bwriadu cyfrifo grantiau o gyfandaliadau ac sydd, unwaith eto, *yn deg, yn gyfartal ac yn ddilysadwy*. Golyga hyn y dylai ymgeiswyr wybod y meini prawf sy'n sail i'r grant, ac y dylai'r meini prawf hyn fod yn safonol ac yn gymwys i bob ymgeisydd ar gyfer yr un mathau o brosiectau.

Er enghraifft, yn achos cais am gynigion, dylai'r awdurdod rheoli allu ateb cwestiynau megis: "A yw'r cais am gynigion yn gyflawn o ran y manylion sydd eu hangen? A yw'r elfennau sydd eu hangen i bennu'r cyfandaliad wedi'u nodi'n fanwl ac wedi'u hesbonio ymlaen llaw? A yw'r awdurdod rheoli yn gwirio bod y costau a gynhwysir yn y gyllideb fanwl ddrafft a gyflwynir, er enghraifft, yn rhesymol ac yn dderbyniol o ystyried pennu'r cyfandaliad yn y ddogfen sy'n nodi'r amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth?"

Ateb arall yw bod yr Aelod-wladwriaeth yn pennu cyfandaliad ar gyfer gweithgarwch penodol ac yn cyhoeddi ceisiadau am gynigion ar sail y swm hwn, gan ariannu'r cynigion gorau.

- **Defnyddio data ar fuddiolwyr penodol**

Bydd y methodolegau a gyflwynir isod yn gymwys i fuddiolwyr. Ond, o ystyried y gofynion sydd ynghlwm wrth y defnydd o ddata ar fuddiolwyr penodol, y tebyg yw **y bydd y methodolegau hyn ond yn symleiddio costau ar gyfer y buddiolwyr hynny a fydd yn rhoi llawer o brosiectau ar waith dros gyfnod y rhaglenni.**

Data hanesyddol wedi'u dilysu buddiolwyr unigol:

Bydd hyn yn arwain at system ad hoc sy'n ymwneud â buddiolwyr penodol. Lle y bo modd, ni ddylai'r data hyn ond gwmpasu canolfan neu adran gost y buddiolwr sy'n gysylltiedig â'r gweithrediad.

Mae'r dull hwn yn seiliedig ar gasglu data cyfrifyddu yn y gorffennol gan y buddiolwr, ar gyfer costau gwirioneddol yr eir iddynt ar gyfer y categorïau o gostau cymwys a gwmpesir gan y costau symlach. Mae hyn, mewn gwirionedd, yn awgrymu bodolaeth system gyfrifyddu ddadansoddiadol dderbyniol ar lefel y buddiolwr. At hynny, mae'n awgrymu bod unrhyw wariant anghymwys yn cael ei hidlo o unrhyw gyfrifiad sy'n cefnogi'r opsiynau costau symlach.

Pan fydd awdurdod rheoli yn penderfynu defnyddio'r dull hwn, dylai ddisgrifio'r canlynol:

- y categorïau o gostau a gwmpesir;
- y dull cyfrifo a ddefnyddir;
- hyd y gyfres i'w chael: mae'n rhaid cael data cyfrifyddu **dros dair blynedd o leiaf** er mwyn nodi unrhyw amgylchiadau eithriadol posibl a fyddai wedi effeithio ar gostau gwirioneddol mewn blwyddyn benodol yn ogystal â'r tueddiadau yn symiau'r costau. Defnyddir y cyfnod cyfeirio o dair blynedd er mwyn ystyried newidiadau o flwyddyn i flwyddyn;
- y swm cyfeirio i'w gymhwyso, er enghraifft y costau cyfartalog dros y cyfnod cyfeirio neu'r costau fel y'u cofrestrwyd dros y blynnyddoedd olaf;
- addasiadau, os o gwbl, sydd eu hangen i ddiweddarau'r swm cyfeirio.

Cymhwyso 'arferion cyfrifyddu cost arferol' buddiolwyr unigol:

Arferion a ddefnyddir gan y buddiolwr i gyfrif am ei holl **weithgareddau arferol a'i gyllid o ddydd i ddydd** yw arferion cyfrifyddu arferol (nad ydynt yn gysylltiedig â chymorth yr UE). Dylai'r dulliau hyn gydymffurfio â **rheolau a safonau cyfrifyddu cenedlaethol**. Nid yw hyd y defnydd yn hollbwysig.

Mae dull cyfrifyddu **heb fod yn 'arferol' os yw wedi cael ei addasu ar gyfer gweithrediad penodol neu gymorth gan yr UE.**

Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng:

- costau gwirioneddol; a
- chostau a bennir yn ôl arferion cyfrifyddu cost arferol buddiolwyr unigol.

Felly, ystyr 'costau y mae'r buddiolwr yn **mynd iddynt yn wirioneddol**' yw costau a gyfrifir mor union â phosibl, fel arfer fesul person ar gyfer cyfnod o amser y gweithrediad. Yn ymarferol, ar gyfer costau staff yr awr, derbynnir y defnydd o oriau safonol fel dynodydd (gweler, er enghraifft, y 1,720 o oriau yn yr adran costau uned uchod), ond y rhifiadur ar gyfer cyfrifo 'costau gwirioneddol' yw cyfanswm costau staff cymwys ar gyfer pob person penodol a neilltuir ar gyfer y weithred.

Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, gellid cyfrifo cost yr awr yn seiliedig ar **arferion cyfrifyddu cost** y buddiolwr ar sail cyfartaledd costau cydnabyddiaeth cyfuniad mwy o gyflogeion. Gradd neu ryw fesur tebyg ydyw fel arfer, sy'n cyfateb yn fras i lefel cyflog, ond gall hefyd fod yn ganolfan neu'n adran gost (sy'n gysylltiedig â'r

gweithrediad) lle y gall lefel cyflogau amrywio'n sylweddol o fewn grŵp cyfun o gyflogeion.

Golyga hyn fod symiau'r costau a geir drwy gymhwyso arferion cyfrifyddu cost fel arfer:

- yn gwyro oddi wrth y costau gwirioneddol;
- yn ymwneud â'r buddiolwr penodol (neu hyd yn oed â'r adran benodol) ar gyfer gweithrediad penodol;
- yn rhai ar gyfer cyfnod penodol (cyfnod byr - mae'r data a ddefnyddiwyd yn ymwneud â blwyddyn).

Felly, er mwyn sicrhau triniaeth gyfartal ac nad yw'r grant yn cwmpasu costau anghymwys, mae'n rhaid i'r ddogfen sy'n amlinellu'r amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth ac sy'n awdurdodi buddiolwyr i ddefnyddio eu harferion cyfrifyddu cost ddarparu amodau gofynnol.

Nod yr amodau gofynnol hyn fydd sicrhau bod yr arferion cyfrifyddu cost yn arwain at system deg a chyfartal, yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol. Mae hyn yn awgrymu bodolaeth system gyfrifyddu ddadansoddiadol dderbyniol ar lefel y buddiolwr. At hynny, mae'n awgrymu y caiff unrhyw **wariant anghymwys ei ddileu o'r cyfrifiad.**

Gofynion cyffredin ar gyfer defnyddio data sy'n ymwneud â buddiolwr unigol (data hanesyddol neu arferion cyfrifyddu cost arferol)

Yn dibynnu ar y sicrwydd y mae'r awdurdod rheoli wedi'i gael oddi wrth system reoli fewnol y buddiolwr, efallai y bydd angen i'r data sy'n ymwneud â buddiolwr penodol gael eu hardystio gan archwilydd allanol neu, yn achos cyrff cyhoeddus, gan swyddog cyfrifyddu cymwys ac annibynnol, er mwyn sicrhau dibynadwyedd y data cyfeirio a ddefnyddir gan yr awdurdod rheoli.

Efallai y caiff data hanesyddol eu hardystio fel rhan o archwiliadau statudol neu archwiliadau cytundebol. Byddai unrhyw ymarfer ardystio a gynhelir yn y modd hwn **yn gofyn am wybodaeth fanwl**, gan yr archwilydd allanol neu'r swyddog cyfrifyddu annibynnol, **o Reoliadau Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, e.e. mewn perthynas â'r trywydd archwilio, cymhwysedd y costau sylfaenol a'r gyfraith sy'n gymwys.**

Lle y tybir bod y risg o wall neu afreoleidd-dra mewn data cyfrifyddu a ddefnyddiwyd yn y gorffennol yn isel, gall y dull cyfrifo fod yn seiliedig ar ddata nas archwilydd ymlaen llaw. Byddai angen i'r awdurdod rheoli allu dangos, mewn modd gwrthrychol, fod y risg yn isel mewn gwirionedd a pham mae o'r farn bod system gyfrifyddu'r buddiolwr yn ddibynadwy, yn gyflawn ac yn gywir. Sut bynnag, bydd yn rhaid i'r awdurdod rheoli asesu a dilysu'r data hyn sy'n ymwneud â buddiolwr unigol ar sail

achos unigol wrth gadarnhau'r ddogfen sy'n amlinellu'r amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth i'r buddiolwr fan bellaf.

Mae'r dulliau sy'n ymwneud â buddiolwr unigol a ddisgrifir uchod yn gofyn am ystyriaeth ofalus cyn i awdurdodau rheoli eu gweithredu. Gall fod yn **feichus datblygu'r systemau ad hoc hyn** ac felly argymhellir mai dim ond mewn achosion lle mae rhannau sylweddol o'r rhaglen(ni) yn cael eu rhoi ar waith gan un buddiolwr, e.e. adrannau'r llywodraeth, prifysgolion, yr Adran Gwaith a Phensiynau/ Canolfan Byd Gwaith y dylai awdurdodau rheoli ddefnyddio'r system hon.

Methodoleg 2: Defnyddio graddfeydd safonol o gostau uned, cyfandaliadau a chyfraddau safonol a bennwyd mewn ardaloedd eraill

- **Efelychu polisïau eraill yr UE**

Prif nod y dull hwn yw cysoni'r rheolau rhwng polisïau'r UE. Y bwriad yw egluro, lle mae'r CE eisoes wedi datblygu costau symlach ar gyfer math penodol o fuddiolwr a gweithrediad o dan un o bolisïau'r UE, nad oes angen i'r Aelod-wladwriaeth/ y CE ddyblygu'r gwaith hwn o dan bolisïau Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ac y gall ailddefnyddio'r dull a'i ganlyniadau'n uniongyrchol.

Wrth ailddefnyddio un o ddulliau'r UE sy'n bodoli eisoes mae'n rhaid i'r awdurdod rheoli sicrhau a dogfennu'r canlynol:

- ailddefnyddir y dull yn ei gyfanrwydd (er enghraifft, y diffiniad o gostau uniongyrchol/ anuniongyrchol, gwariant cymwys, cwmipas) yn hytrach na'i ganlyniadau yn unig (y gyfradd o X%);
- mae'n rhaid i'r dull gael ei gymhwyso at fathau tebyg o weithrediadau a buddiolwyr;
- cyfeirir at y dull a ddefnyddir ym mholisïau eraill yr UE.

Mae Erthyglau 20 ac 21 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 480/2014 dyddiedig 3 Mawrth 2014 yn darparu ar gyfer cyfraddau safonol cymwys ar gyfer dulliau **costau anuniongyrchol** a gymhwysir ym mholisïau eraill yr UE a lle y gellir eu cymhwyso yn Rheoliad 1303/2013 yr UE:

- Ar gyfer **Horizon 2020**: mae'r Rheoliad Dirprwyedig yn pennu'r amodau ar gyfer cymhwyso cyfradd safonol o **25%** ar gyfer costau anuniongyrchol at weithrediadau o dan Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd sy'n cyfateb i'r posibilïadau a gynigir yn Horizon 2020. Mae'n rhaid i bob elfen berthnasol o'r fethodoleg ar gyfer cymhwyso'r gyfradd safonol a nodir yn y rheoliad hwn gael ei chymhwyso. Ni ddylid cynnwys costau uniongyrchol ar gyfer is-gontractio a chostau adnoddau a ddarperir gan drydydd partion, nas defnyddir ar safle'r buddiolwr, nac ychwaith gymorth ariannol i drydydd

partion, yn y costau ar y sail y caiff y gyfradd ei chymhwyso i gyfrifo'r symiau cymwys (heb eu cynnwys mewn costau math 1).

- O ran **LIFE**: mae'r Rheoliad Dirprwyedig yn pennu'r amodau lle y gellid defnyddio'r gyfradd safonol o **7%** o gostau uniongyrchol ar gyfer prosiectau sy'n debyg i LIFE fel y'i nodir yn Erthygl 124(4) o'r Rheoliad Ariannol.

Yn y ddau achos, dylid cyfeirio at Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn a'r erthygl berthnasol yn y ddogfen sy'n amlinellu'r amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth (Cytundeb Ariannu/ Cytundeb Grant).

- **Efelychu cynlluniau grant y DU (y DU, rhanbarthol neu leol)**

Mae'r egwyddor yn union yr un fath ag y mae ar gyfer opsiynau a ddefnyddir ym mholisiau'r UE ond yn hytrach nag efelychu dulliau polisiau'r UE, mae'n efelychu **dulliau cenedlaethol, rhanbarthol neu leol**: gall cyfraddau safonol, costau uned neu gyfandaliadau a ddefnyddir o dan gynlluniau cymorth cenedlaethol (megis ysgoloriaethau, lwfansau dyddiol) **gael eu defnyddio heb gyfrifiadau ychwanegol**.

Ni fydd y fethodoleg genedlaethol a ddefnyddir yn destun archwiliadau, dim ond y ffordd y'i cymhwysir.

Gellid defnyddio'r holl ddulliau cenedlaethol cymwys ar gyfer gweithrediadau a buddiolwyr tebyg sy'n cael arian Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd **ar yr amod bod y dulliau hyn hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithrediadau sy'n cael arian o gronfeydd cenedlaethol yn unig y tu hwnt i unrhyw fath o gymorth gan yr UE neu gymorth allanol**. Hynny yw, nid ystyrir bod dulliau a ddefnyddir at ddiben rhaglen o dan Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn unig yn rhai cenedlaethol. Mae dulliau a ddefnyddir ar gyfer gweithrediadau cenedlaethol a'r rhai sy'n cael arian o dan y rhaglen yn dderbyniol.

Ni fydd modd defnyddio dulliau cenedlaethol y rhoddwyd terfyn arnynt.

Os caiff y dull ei addasu/ ei derfynu yn ystod cyfnod y rhaglenni yna dylai'r un addasiad fod yn gymwys ond dim ond i brosiectau Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd **a ddewisir ar ôl** yr addasiad / penderfyniad i derfynu.

Gellid hefyd ddefnyddio dulliau cyfrifo **rhanbarthol** neu **leol** eraill ond byddai'n rhaid iddynt gael eu cymhwyso at yr ardal ddaearyddol lle y cânt eu defnyddio.

Wrth ailddefnyddio dull cenedlaethol sy'n bodoli eisoes dylai'r awdurdod rheoli sicrhau a dogfennu'r un wybodaeth ag sy'n ofynnol wrth ailddefnyddio un o ddulliau'r UE:

- ailddefnyddir y dull yn ei gyfanrwydd (er enghraifft a lle y bo'n gymwys, gwariant cymwys, cwmipas) yn hytrach na'i ganlyniad yn unig (cyfandaliad o £X);

- mae'n gymwys i'r un ardal ddaearyddol neu ardal lai (mae hyn yn golygu, os cymhwysir methodoleg mewn un rhanbarth yn unig, y gall gael ei hailddefnyddio gan y rhanbarth dan sylw ond **nid rhanbarth arall** o'r Aelod-wladwriaeth hon lle na fydd y fethodoleg genedlaethol yn gymwys);
- mae'n rhaid i'r dull gael ei gymhwyso at fathau tebyg o weithrediadau a buddiolwyr;
- cyfiawnhad bod y dull hwn **yn cael ei ddefnyddio** ar gyfer gweithrediadau sy'n cael arian o gronfeydd cenedlaethol yn unig.

Sut i asesu a yw mathau o weithrediadau a buddiolwyr yn 'debyg'?

Fel egwyddor gyffredinol, **dylid ystyried pob elfen** o'r dull a allai gael effaith ar y gost uned/ cyfandaliad / cyfradd safonol. Os oedd gweithrediad a'i fuddiolwr **yn gymwys** o dan gynllun arall, gellir defnyddio'r dull cyfrifo presennol a chostau uned/ cyfraddau safonol/ cyfandaliadau cyfatebol y cynllun arall hwn. Y tu hwnt i hynny, **mae angen ystyriaeth ar sail achos unigol.**

Enghraifft (ERDF/ESF):

Ym maes ymchwil, mae cynllun cyfradd safonol yn helpu prifysgolion i rwydweithio ar yr amod bod y gweithrediad yn ymwneud â phrifysgolion o leiaf dair Aelod-wladwriaeth sydd wedi cyhoeddi o leiaf 10 o gyhoeddiadau yn ystod y tair blynedd diwethaf. Nid yw'r meini prawf ynglŷn â nifer y cyhoeddiadau yn cael unrhyw effaith ar y gyfradd safonol, ond mae'r meini prawf eraill yn cael effaith: ymchwil, rhwydweithio, prifysgolion mewn o leiaf dair Aelod-wladwriaeth. Ar gyfer gweithrediadau sy'n bodloni'r meini prawf hyn gellid defnyddio'r un dull.

Methodoleg 3: Defnyddio cyfraddau a bennir gan Reoliadau Strwythurol a Buddsoddi'r UE

Mae Rheoliadau'r UE yn darparu nifer o systemau parod i'w defnyddio. Bwriedir i'r rhain roi'r sicrwydd cyfreithiol mwyaf posibl a lleihau'r llwyth gwaith cychwynnol neu'r angen am ddata er mwyn pennu'r system am nad oes unrhyw ofyniad i wneud cyfrifiad er mwyn pennu'r cyfraddau cymwys. Fodd bynnag, nid yw dulliau o'r fath yn hyblyg ac nid ydynt yn addas ar gyfer pob math o weithrediadau.

Ar gyfer gweithrediadau sy'n arwain at gostau anuniongyrchol, gellir cyfrifo'r costau anuniongyrchol fel 15% o gostau staff uniongyrchol cymwys [Erthygl 68(1) (b) o Reoliad 1303/2013 yr UE].

Mae'r gyfradd hon ar gael ar gyfer pob un o'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. Uchafswm cyfradd yw'r gyfradd hon. Gall aelod-wladwriaethau ddefnyddio'r gyfradd o 15% neu gyfradd is, heb orfod gwneud cyfrifiad penodol.

Serch hynny, os bydd yr awdurdod rheoli yn penderfynu **peidio â chymhwyso'r un gyfradd i bob buddiolwr**, dylai fod yn gallu profi i **egwyddor triniaeth gyfartal** gael ei pharchu.

Newidiadau i ganrannau cyfraddau safonol, costau uned a gwerthoedd cyfandaliadau wrth i raglenni gael eu rhoi ar waith

Gall awdurdodau rheoli newid cyfraddau'r costau symlach sydd ar gael ar gyfer **gweithrediadau newydd** ar unrhyw adeg wrth i raglenni gael eu rhoi ar waith.

Nid yw Rheoliadau'r UE yn nodi unrhyw ddarpariaeth ynglŷn ag addasu costau symlach. Felly nid yw addasu yn orfodol. Fodd bynnag, gall yr awdurdod rheoli fod o'r farn bod angen addasu'r costau symlach wrth lansio cais newydd am gynigion neu gall wneud hynny o bryd i'w gilydd er mwyn ystyried mynegeio neu newidiadau economaidd e.e. mewn costau ynni, lefelau cyflogau, ac ati.

Mae'r CE yn awgrymu ymgorffori rhai addasiadau awtomataidd (yn seiliedig ar chwyddiant, neu ddatblygiad cyflogau, er enghraifft) yn y fethodoleg.

Dim ond i brosiectau sydd **i'w rhoi ar waith yn y dyfodol, yn hytrach nag yn ôl-weithredol** y dylai cyfraddau wedi'u haddasu fod yn gymwys.

Ar gyfer unrhyw ddiwygiad a wneir, dylai fod dogfennaeth ategol ddigonol er mwyn cyfiawnhau'r cyfraddau wedi'u haddasu neu'r symiau sydd ar gael yn yr awdurdod rheoli.

Methodolegau ychwanegol ar gyfer rhai gweithrediadau

Mae Erthygl 67(5)(aa) yn ychwanegu posibilrwydd penodol i rai gweithrediadau, sy'n golygu cyfrifiad drwy gyfeirio at **gyllideb ddrafft** yn achos grantiau islaw EUR 100,000 o gymorth cyhoeddus. Mae'n rhaid i'r swm hwn gael ei ystyried fel yr uchafswm cymorth cyhoeddus i'w dalu i'r buddiolwr, ar gyfer y gweithrediad cyfan, fel y'i nodwyd yn y ddogfen sy'n amlinellu'r amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth i'r buddiolwr. Nid yw'n cynnwys y cyfraniad cyhoeddus a ddarperir gan y buddiolwr ei hun, os o gwbl, na'r lwfansau na'r cyflogau a delir gan drydydd parti er budd y cyfranogwyr mewn gweithrediad.

Nod y posibilrwydd **hyblyg iawn** hwn yw hwyluso'r broses o weithredu'r defnydd gorfodol o opsiynau costau symlach ar gyfer gweithrediadau bach. Yn wir, mae'r dull hwn yn ei gwneud yn bosibl i rai costau symlach gael eu cyfrifo hyd yn oed os nad oes unrhyw system gyffredinol wedi cael ei chreu neu os yw'r gweithrediad yn benodol iawn. Caiff y gyllideb ddrafft ei defnyddio i gyfrifo'r costau symlach penodol sy'n gysylltiedig â'r gweithrediad neu'r prosiect hwn. Caiff y gyllideb hon ei harchifo gan yr awdurdod rheoli fel dogfen ategol er mwyn cyfiawnhau'r costau symlach a ddefnyddir. Bydd y ffordd y rheolir y gweithrediad/ prosiect yn ariannol a'r ffordd y dilysir rheoli'r gweithrediad/ prosiect yn seiliedig ar opsiynau costau symlach yn unig, yn hytrach na'r gyllideb ei hun.

Dylai'r gyllideb gael ei hasesu ar yr un sail ag y caiff ei hasesu pan ddefnyddir costau gwirioneddol. Yn hyn o beth, argymhellir yn gryf y dylai'r awdurdodau rheoli bennu terfynau neu lefelau uchafswm cost a ddefnyddir i gymharu'r costau wedi'u cyllidebu pwysicaf o leiaf â'r terfynau hyn. Byddai diffyg terfynau neu lefelau uchafswm cost yn ei gwneud yn anodd i unrhyw awdurdod rheoli sicrhau triniaeth gyfartal a chydymffurfiaeth ag arferion rheoli ariannol cadarn. Hyd yn oed os argymhellir hynny, wrth asesu'r gyllideb, ni fydd angen i'r awdurdod rheoli gymharu'r gyllideb fanwl ddrafft a gynigir gan y ddarpar fuddiolwr â gweithrediadau tebyg.

Gallai'r awdurdod rheoli hefyd osod meincnodau isafswm ar ansawdd y canlyniadau disgwyledig.

Dylai'r gyllideb ddrafft a'r dogfennau ategol sy'n dangos bod yr awdurdod rheoli wedi asesu'r gyllideb gael eu harchifo gan yr awdurdod rheoli ynghyd â'r dogfennau sy'n ymwneud â'r prosiect dan sylw. Nid yw'r gyllideb ddrafft yn rhan o'r ddogfen a luniwyd rhwng yr awdurdod rheoli a'r buddiolwr sy'n nodi'r rheolau sy'n gymwys.

Wrth gefnogi'r un buddiolwr sawl gwaith, argymhellir y dylid cymharu'r gyllideb fanwl ddrafft â gweithrediadau a gefnogwyd yn flaenorol.

ADRAN 7: Cymhwyso costau symlach mewn gweithrediadau cydweithredol a gweithrediadau sy'n rheoli cynlluniau grant

Costau symlach mewn gweithrediadau cydweithredol (Cronfeydd Strwythurol)

Nodwch y disgrifir ystyr gweithrediad 'cydweithredol' yn y ddogfen ganllaw ar wahân 'WEFO Delivery Models 2014-2020'. Yn gryno, mae'r gweithrediadau hyn yn cynnwys prif fuddiolwr ac un neu fwy o gyd-fuddiolwyr sy'n helpu'r prif fuddiolwr i reoli'r gweithrediad a/neu ei roi ar waith. Yng Nghymru, ystyrir bod pob buddiolwr yn rheoli prosiect ar wahân o fewn gweithrediad ehangach.

Cyfraddau safonol

Pennir rhai cyfraddau safonol yn ôl gweithgareddau'r prosiect e.e. y gyfradd ymchwil, datblygu ac arloesi o 25% ar gyfer costau anuniongyrchol sy'n efelychu Horizon 2020. Felly, mae'n ddichonadwy mai dim ond rhai prosiectau neu weithgareddau o fewn gweithrediad fyddai'n gymwys i'r gyfradd benodol honno. Gall y prosiectau neu'r gweithgareddau 'eraill' ddefnyddio cyfraddau safonol sy'n gyson â'r gweithgareddau y maent yn ymgymryd â hwy ac felly, er enghraifft, gallant ddefnyddio'r gyfradd o 15% (o gostau staff uniongyrchol) ar gyfer costau anuniongyrchol os ydynt yn gymwys.

Golyga hyn y gallai pob prosiect mewn gweithrediad fod yn cymhwyso cyfradd safonol wahanol. I'r gwrthwyneb, os bydd pob prosiect yn weithrediadau ymchwil, datblygu ac arloesi cymwys yna, byddai pob prosiect yn defnyddio'r gyfradd 25% sy'n efelychu Horizon 2020 (neu gallai pob prosiect ddefnyddio'r opsiwn o 15% o gostau staff uniongyrchol).

Lle mae'r cyfraddau safonol a ddefnyddir yn seiliedig ar gostau gwirioneddol cymwys buddiolwr/ prosiect penodol (neu grŵp o fuddiolwyr/ prosiectau) yn unig, mae'n hanfodol bod y prif fuddiolwr yn sicrhau y caiff yr atodlenni cyfrifo eu cadw i'w harchwilio yn y dyfodol drwy ddilysiadau a chan staff archwilio. Mae'n rhaid i'r atodlenni ddangos i'r cyfraddau cymwys gael eu cymhwyso'n gywir i gostau cyfatebol y buddiolwr yn unig.

Mae'n rhaid i'r cytundeb ariannu/ cytundeb grant nodi costau symlach a gymeradwyir ar gyfer y gweithrediad **gan gynnwys, os yw'n gymwys, pa fuddiolwyr/ prosiectau y mae pob opsiwn costau symlach yn ymwneud â hwy.**

Os datblygir cyfraddau safonol yn seiliedig ar ddata hanesyddol buddiolwyr neu arferion cyfrifyddu cost arferol y buddiolwr [gweler Adran 6], mae hyn yn achosi

heriau penodol mewn gweithrediadau cydweithredol – ymdrinnir â hyn yn yr adran nesaf ar gostau uned/ cyfandaliadau.

Ni ellir o dan unrhyw amgylchiadau bennu cyfraddau safonol ‘cyfartalog’ ar gyfer y gweithrediad cyfan.

Costau uned/ cyfandaliadau

Mae'r dull hwn yr un fath â'r un a ddefnyddir ar gyfer 'cyfraddau safonol, fwy neu lai – lle y defnyddir costau symlach ar gyfer gweithgareddau rhai prosiectau (buddiolwr) yn unig mewn gweithrediad, mae'n rhaid cadw atodlenni cyfrifo a bydd y cytundeb ariannu yn cadarnhau pa fuddiolwyr/ prosiectau y mae'r opsiwn costau symlach yn ymwneud â hwy.

Mae'n bosibl i gostau uned/ cyfandaliadau gael eu pennu yn ôl gweithgareddau/ allbynnau/ canlyniadau a gyflawnir gan nifer (neu bob un) o'r buddiolwyr/ prosiectau mewn gweithrediad. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r fethodoleg a ddefnyddir i bennu'r gyfradd gael ei hystyried yn ofalus [gweler Adran 6]. Er bod methodolegau sy'n cyfeirio at feincnodau costau allanol (e.e. data ystadegol; cynlluniau ariannu cenedlaethol ac ati) yn eithaf syml, mae methodolegau sy'n datblygu cost yn seiliedig ar ddata hanesyddol y buddiolwr neu arferion cyfrifyddu costau arferol y buddiolwr yn amlwg yn achosi mwy o broblem.

Mae'r ddwy fethodoleg ddiwethaf hyn ar gael mewn achosion o'r fath ond byddai angen ystyried data hanesyddol/ arferion arferol pob buddiolwr perthnasol. Nid yw'n dderbyniol datblygu costau uned/ cyfandaliadau 'cyfartalog' yn seiliedig ar y fethodoleg hon nac ystyried cofnodion ac arferion y prif fuddiolwr yn unig.

Oherwydd baich gweinyddol a chymhlethdod y methodolegau penodol hyn, argymhellir yn gryf na ddylid ystyried y dull hwn o ddatblygu costau uned neu gyfandaliadau.

Costau uned ar gyfer cyfraddau staff yr awr

Gall pob buddiolwr mewn gweithrediad gyfrifo ei gostau staff naill ai ar sail costau uned neu ar sail 'costau gwirioneddol'. Er enghraifft, gallai'r prif fuddiolwr ddewis defnyddio 'costau real' a'r cyd-fuddiolwr ddewis defnyddio costau uned. Bydd angen i bob buddiolwr fod yn ymwybodol o'r gofynion perthnasol o ran rheoli, rheolaeth ac archwilio sy'n gysylltiedig â phob methodoleg a ddewisir.

Cyfradd safonol o 40%

Dim ond os yw pob prosiect/ buddiolwr cymwys yn y gweithrediad ESF yn cyfrifo costau cymwys gan ddefnyddio'r gyfradd safonol o 40% y gellir defnyddio'r gyfradd hon. Os nad yw prosiectau nad ydynt yn gymwys yn cymhwyso'r gyfradd o 40% (e.e. prosiect wedi'i gaffael yn llawn, nad yw'n cydymffurfio â'r rheolau ynglŷn â chymorth

gwladwriaethol ac ati) yna gall y prosiectau sy'n weddill ddefnyddio'r gyfradd o 40% o hyd.

ADRAN 8: Rheoli ac archwilio

Mae'r adran hon wedi'i hanelu'n bennaf at ymgeiswyr/ buddiolwyr - dylai staff awdurdodau rhaglenni Llywodraeth Cymru gyfeirio at y manylion llawn a ddarperir ônogfen ganllaw'r CE EGESIF_14-0017

O safbwynt archwilio a rheoli, mae opsiynau costau symlach yn gwyro oddi wrth egwyddor 'costau gwirioneddol'. Mae costau symlach yn ymwneud ag amcangyfrifon o gostau, wedi'u pennu ymlaen llaw ac yn seiliedig, er enghraifft, ar gyfartaleddau ac arolygon o ddata hanesyddol neu brisiau ar y farchnad.

Gan na fydd amcangyfrifon o gostau yn y dyfodol byth yn cyfateb yn union i gostau gwirioneddol, wrth reswm, bydd cyfraddau sefydlog o'r fath drwy ddiffiniad, yn **ormod** neu'n **llai** na'r costau gwirioneddol yr eir iddynt yn ystod y gweithrediad.

Felly bydd angen i fuddiolwyr ystyried diffyg posibl rhwng y symiau gwirioneddol a delir a'r symiau a gyfrifir drwy ddefnyddio'r dull opsiynau costau symlach. Yn yr un modd, bydd angen i fuddiolwyr bennu ffordd o ymdrin â gwarged bosibl h.y. os bydd gwariant cymwys a gyfrifir drwy ddefnyddio opsiynau costau symlach yn fwy na'r symiau a delir mewn gwirionedd. Bydd angen i drefniadau cyfrifyddu, adrodd a llywodraethu buddiolwyr allu darparu ar gyfer amgylchiadau o'r fath.

Felly, bydd dilysiadau ac archwiliwyr yn canolbwyntio mwy ar allbynnau yn hytrach na mewnbynnau a chostau prosiectau.

Dull cyffredinol o reoli ac archwilio costau symlach

Lle y defnyddir costau symlach, at ddibenion pennu cyfreithlondeb a rheoleidd-dra gwariant, ni fydd dilysiadau nac archwiliadau **yn dilysu'r costau gwirioneddol sy'n sail i gategorïau o wariant** a gyfrifir drwy ddefnyddio'r dull costau symlach.

Caiff **cyfrifiadau'r** dull costau symlach **eu gwirio**, er mwyn cadarnhau cywirdeb a chydymffurfiaeth â'r telerau a nodir yn y cytundeb ariannu/ cytundeb grant, a bydd **cyfreithlondeb a rheoleidd-dra'r** gweithrediad yn parhau i gael eu hystyried. Eto i gyd, caiff yr archwiliadau hyn eu cynnal mewn ffordd wahanol, ar sail y dull cyfrifo a ddefnyddir i bennu'r costau symlach ac **nid ar sail dogfennau ariannol ategol** fesul prosiect.

Bydd y fethodoleg archwilio a rheoli a gaiff ei chymhwyso yn cynnwys y dilysiadau canlynol:

1. Dilysu'r dull cyfrifo o bennu'r opsiwn costau symlach, gan gynnwys sicrhau bod yr wybodaeth am y dull cyfrifo yn cael ei chofnodi'n briodol, yn hawdd ei holrhain ac yn cael ei chymhwyso'n gyson. Gallai'r dilysiad hwn ddigwydd ar lefel awdurdod

rheoli a/neu lefel buddiolwr (ar gyfer systemau sy'n seiliedig ar ddata'r buddiolwyr eu hunain).

2. Dilysu a yw'r dull sefydledig wedi cael ei gymhwyso'n gywir drwy ystyried allbynnau/ canlyniadau'r prosiect yn achos costau uned a chyfandaliadau;
3. Yn achos ariannu ar sail cyfradd safonol, dilysu ar sail egwyddor 'costau gwirioneddol' categorïau o gostau cymwys y mae'r gyfradd yn gymwys iddynt (neu eu cyfrifo lle y defnyddir opsiynau costau symlach eraill i'w cyfrifo) a, lle y bo'n berthnasol, gategorïau eraill o gostau cymwys nas ystyrir yn y system ariannu ar sail cyfradd safonol.

Nid yw'r opsiynau costau symlach yn gwaredu'r rhwymedigaeth i gydymffurfio'n llawn â holl reolau'r UE a rheolau cenedlaethol sy'n gymwys, megis cyhoeddusrwydd, caffael cyhoeddus, cyfle cyfartal, amgylchedd cynaliadwy, cymorth gwladwriaethol ac ati.

Bydd cydymffurfiaeth â rheolau cymwys eraill yn digwydd ar sail risg, gan gynnwys ystyried gweithdrefnau caffael. Fodd bynnag, bydd diben gwiriadau o'r fath wedi'i gyfyngu i ddilysu a yw rheolau a gweithdrefnau caffael wedi cael eu parchu, yn hytrach nag archwilio'r symiau a dalwyd mewn perthynas â'r contract wedi'i gaffael.

Os nodir achosion o dorri'r gweithdrefnau caffael, gellid cymhwyso cywiriad ariannol o gyfradd safonol, ac os torrir rheolau caffael cyhoeddus, gellid lansio gweithdrefn tor-rheol gan y CE, hyd yn oed os datgenir bod costau'r contract yn wariant cymwys ar sail 'costau gwirioneddol'.

Bydd dilysiadau ac archwiliadau yn canolbwyntio ar ddilysu a yw amodau opsiynau costau symlach cymwys wedi cael eu bodloni ac na fyddant yn amau'r rhesymau pam mae awdurdodau rhaglenni wedi ffafrio un opsiwn costau symlach dros un arall. Cyfrifoldeb awdurdod rheoli rhaglenni – yn hytrach na'r buddiolwr – yw cadw cofnodion digonol o'r dulliau cyfrifo a'r sail dros benderfynu ar gostau symlach a gymeradwywyd.

Yn achos cyfuniad o gostau symlach mewn un gweithrediad, yn ogystal â'r gwiriadau sydd eu hangen ar gyfer y mathau unigol o 'gostau symlach' a ddisgrifir uchod, bydd dilysiadau ac archwiliadau yn dilysu bod y methodolegau a ddefnyddir yn sicrhau na chodwyd am rannau o wariant gweithrediad drwy ddefnyddio mwy nag un math o opsiwn, a thrwy hynny arwain at **ddatganiad dwbl o gostau**.

Costau uned

Wrth ddefnyddio **costau uned neu gyfandaliadau**, dylai'r sail dros gyfrifo'r costau uned neu'r cyfandaliadau a ddefnyddir mewn gweithrediad fod yn glir a chyfeirio at un neu sawl un o'r methodolegau cymeradwy a ddisgrifir uchod.

O ystyried y caiff taliadau eu cyfrifo ar sail meintiau/ gwirionedd y prosiect neu'r gweithrediad, mae'n hanfodol cael sicrwydd i'r gweithgareddau neu'r allbynnau a hawliwyd gael eu gwireddu mewn gwirionedd. Yn benodol, mae'n rhaid i feintiau

datganedig/ prawf o gwblhau'r prosiect neu'r gweithrediad gael eu datgan gan y buddiolwr, eu cyfiawnhau a'u harchifo fel cofnodion craidd i'w dilysu a'u harchwilio yn y dyfodol. Bydd dilysiadau ac archwiliadau yn gofyn am ddogfennau ategol i gyfiawnhau'r meintiau a ddatgenir gan y buddiolwr.

Yn ogystal ag ystyriaethau 'cymhwysedd costau', caiff pob agwedd arall ar gymhwysedd a chydymffurfiaeth eu hystyried ac maent y tu hwnt i gwmpas costau symlach, er enghraifft:

- Cymhwysedd cyfranogwyr unigol (gan gynnwys bod yn addas ar gyfer proffil penodol y cyfranogwyr a dargedir gan y gweithrediad);
- Cymhwysedd daearyddol (gweithgareddau, cyfranogwyr neu'r rhai sy'n derbyn arian);
- Prawf o bresenoldeb (taflenni presenoldeb; ffurflenni ymrestru ac ati);
- Y rheolau ynglŷn â chymorth gwladwriaethol;
- Rheolau caffael;
- Triniaeth gywir o refeniw/ derbyniadau;
- Dogfennau ategol ar gyfer pob allbwn a chanlyniad a ddatganwyd;
- Realiti gweithgareddau ac asedau (arolygiadau, arsylwadau).

Cofiwch fod costau a gyfrifir ac a ad-delir ar sail cost uned/ cyfandaliad yn cael eu hystyried yn 'wariant profedig' yn yr un modd â chostau gwirioneddol a ategir gan anfonebau. Golyga hyn hefyd y caiff y gwariant ei ddatgan yn anghymwys os nad oes dogfennau ategol digonol ar gael yn ystod dilysiadau ac archwiliadau er mwyn profi realiti meintiau datganedig/ bodloni amodau opsiynau costau symlach.

Pan fydd meintiau datganedig yn gostwng (o'u cymharu â'r uchafswm a gymeradwywyd ar y cychwyn), bydd y costau cymwys yn gostwng, yn annibynnol ar gost wirioneddol sylfaenol y prosiect neu'r gweithrediad. Fodd bynnag, weithiau ni chyflawnir meintiau a ragwelwyd oherwydd **ffactorau allanol y tu hwnt i reolaeth y buddiolwr**, yn hytrach nag oherwydd y buddiolwr ei hun. Ar sail 'eithriadau', gellid ystyried y gweithgareddau hyn a gynlluniwyd yn wariant cymwys ond dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Mae'n rhaid i'r buddiolwr a'r awdurdod sy'n rheoli'r rhaglen **gytuno'n glir ymlaen llaw** ar yr amgylchiadau sydd i'w trin yn eithriad;
- Mae'n rhaid i fanylion llawn gael eu cofnodi yn y ddogfen sy'n amlinellu'r amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth (cytundeb ariannu/ cytundeb grant) neu ddogfen arall sy'n cael yr un effaith gyfreithiol;
- Mae'n rhaid i'r awdurdod sy'n rheoli'r rhaglen gynnig yr un amodau i bob gweithrediad tebyg, gan ddangos triniaeth gyfartal i bob buddiolwr.

Er eglurder, os bydd awdurdodau rhaglenni Llywodraeth Cymru yn cyflwyno eithriadau o'r fath, caiff rheolau cenedlaethol Cymru ar gymhwysedd gwariant eu diweddarau er mwyn sicrhau bod pob darpar fuddiolwr yn cael ei hysbysu am y rheolau.

Enghraifft (ESF):

Os gwneir taliad ar sail 'oriau x hyfforddeion', gellid cytuno ymlaen llaw na chaiff costau cymwys eu lleihau oherwydd rheswm penodol dros **absenoldeb** cyfranogwyr **y gellir ei gyfiawnhau**, er enghraifft oherwydd **salwch**.

At hynny, dylai'r ddogfen sy'n amlinellu'r amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth nodi'n glir yr uchafswm absenoldebau awdurdodedig, yr isafswm oriau hyfforddiant er mwyn cyfiawnhau bod hyfforddai yn dal i fod yn gymwys, y math o gynllun hyfforddiant (cyfranogiad gorfodol o ddechrau'r hyfforddiant, hyfforddeion newydd yn lle rhai sy'n gadael yr hyfforddiant ac ati).

Gallai rhai mathau o gostau uned fod yn fwy **anodd i'w cyfiawnhau** nag eraill. Felly, bydd y dewis o'r gost uned sydd i'w defnyddio yn cael effaith bwysig o ran symleiddio, llwyth gwaith gweinyddol a risg gwallau.

Enghraifft (ESF):

Os pennir costau uned i gyfrifo'r costau am nifer y bobl sy'n cael swydd ac yn ei chadw am gyfnod y cytunwyd arno, byddai'r unig dystiolaeth ategol sydd ei hangen yn cynnwys y cyfiawnhad dros gymhwysedd y person yn erbyn meini prawf cymhwysedd rhagnodedig, prawf o gyflogaeth gychwynnol y person sy'n cael lleoliad a'i gyflogaeth/ chyflogaeth yn ystod chwe mis o leiaf. Mae'r mathau hyn o raddfeydd yn amlwg yn gogwyddo tuag at 'ganlyniadau' ac yn haws eu cyfiawnhau, ond maent ond yn cwmpasu un agwedd ar y gweithrediad.

Fel egwyddor gyffredinol, dylai'r dewis o'r graddfeydd safonol o gostau uned adlewyrchu gweithgareddau arfaethedig pob gweithrediad. Ni fyddai'n briodol cyfrifo costau gweithrediad yn unol â chanlyniad penodol os nad yw'r gweithgarwch a ariennir yn **uniongyrchol gysylltiedig** â'r canlyniad hwn, er y gallai llawer o ddigwyddiadau allanol eraill effeithio ar y canlyniad hwn.

Gall costau uned 'yn seiliedig ar ganlyniadau' yn unig ddwyn risg arbennig. Os **nad** yw rhan o'r canlyniad **yn dibynnu ar allbynnau ac ansawdd** y gweithrediad, mae perygl o **dandalu** gweithrediadau a buddiolwyr. Mae'n berthnasol iawn yn achos

gweithrediadau sy'n ymwneud â grwpiau sy'n agored i niwed: mae canlyniadau disgwylidig yn isel ar y cyfan.

Ar y llaw arall, mae angen gofal gydag 'ansawdd' ysgogwyr taliadau ar sail costau uned. Er enghraifft, os telir costau hyfforddiant ar sail costau uned yn unig sy'n cael eu diffinio'n nifer y cyfranogwyr sy'n **ymuno** â'r cwrs, nid oes cymhelliant o ran ansawdd. Ni fyddai arfer o'r fath yn cydymffurfio ag egwyddor rheolaeth ariannol gadarn. Yn wir, gallai'r buddiolwr gael ei ad-dalu'n llawn ar y diwrnod cyntaf er y gallai'r holl hyfforddeion fethu â chyflawni'r ail ddiwrnod. Felly, dylid pennu cynllun system costau uned o'r fath mewn ffordd sy'n talu am gyfranogwyr sy'n ymuno â'r cwrs am gyfnod (digon hir) rhagnodedig.

Talu yn ôl canlyniadau yw costau uned 'sy'n seiliedig ar ganlyniadau' i bob diben, a gallent arwain at ymddygiad camweithredol e.e. blaenoriaethu neu dargedu cyfranogwyr yr ystyrir fwyaf tebygol o gyflawni'r canlyniadau a ddymunir (yn hytrach nag ymyriadau anos eu cyrraedd/ mwy heriol) neu ostwng safonau er mwyn cyrraedd y canlyniadau a dargedir.

Yn olaf, dylai systemau unedau cost wedi'u cynllunio'n dda, yn ddelfrydol, ei gwneud yn bosibl i'r buddiolwr gael ei ad-dalu am ei gostau sefydlog, nid dim ond y costau amrwyddwy sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect neu'r gweithrediad yn effeithiol.

I gloi, mae'r ffordd y dylunnir system costau uned o'r pwys mwyaf a dylai ystyried yr holl fanteision ac anfanteision posibl. **Gallai cost uned ddelfrydol gynnwys y nodweddion canlynol:**

- cysylltiad clir ac uniongyrchol â gweithgareddau arfaethedig y gweithrediad;
- mae'r meintiau yn rhai hawdd i'w cyfiawnhau/ rhoi tystiolaeth yn eu cylch;
- mae'n mynd i'r afael â risg ymddygiad camweithredol (ansawdd is, targedu'r cyfranogwyr hawsaf ac ati).

Cyfraddau safonol

Lle y cyfrifir cyfraddau safonol wrth gyfeirio at gostau 'gwirioneddol' penodol eraill, bydd y costau gwirioneddol yn parhau i gael eu harchwilio'n llawn. Os na ellir rhoi tystiolaeth o'r 'costau gwirioneddol' y cymhwysir y gyfradd safonol iddynt, drwy ddogfennau ategol digonol (archebion prynu, anfonebau, cyfriflenni banc ac ati) yna ni ellir cymhwyso'r gyfradd safonol.

Bydd unrhyw leihad yn y swm a dderbynnir ar ôl y dilysiadau a'r archwiliadau hyn ar gyfer categorïau o gostau cymwys y cymhwysir y gyfradd safonol iddynt (e.e. mewn perthynas â chanfod gwariant 'costau gwirioneddol' anghymwys neu ar ôl cywiriad ariannol) yn effeithio'n gymesur ar y swm a dderbynnir ar gyfer y cyfrifiadau cyfradd safonol.

Lle y defnyddir cyfraddau safonol, mae angen i'r diffiniadau o gostau math 1, math 2 a math 3 [gweler Adran 4] fod yn glir ar gyfer pob cost a gynhwysir yn y cynllun ariannu a gymeradwywyd/ cyflawniadau a broffiliwyd. Mae'n rhaid cytuno ar hyn ymlaen llaw, ac mae'n rhaid nad oes unrhyw orgyffwrdd rhyngddynt e.e. os defnyddir cyfradd safonol ar gyfer costau anuniongyrchol, ni ellir datgan unrhyw gostau anuniongyrchol 'costau gwirioneddol' i'r buddiolwr hwnnw.

Ni ddylai fod gorgyffwrdd ychwaith rhwng costau symlach a chostau gwirioneddol mewn prosiect neu weithrediad. Mae'r CE wedi rhoi diffiniad cyffredinol o gostau uniongyrchol, costau anuniongyrchol a chostau staff ac mae'r rhain wedi cael eu diffinio a'u hesbonio ymhellach yn rheolau cenedlaethol Cymru ar gymhwysedd Cymru '*Rules and conditions of support for the European Structural and Investment Funds*'.

Cyfandaliadau

Er bod egwyddorion cyffredinol 'costau uned' yn gymwys yn yr un modd i gyfandaliadau, mae materion eraill i'w hystyried.

Y prif wahaniaeth rhwng cyfandaliadau a chostau uned yw **nad yw'r ffordd y cyfrifir costau yn gymesur â meintiau**. Yn achos costau uned, pan fydd meintiau yn lleihau, bydd y costau cymwys yn lleihau'n gymesur â hynny. Yn achos cyfandaliadau, nid yw'r 'cysylltiad cyfrannol' hwn rhwng meintiau a thaliadau yn berthnasol. Caiff y costau eu cyfrifo ar sail dull '**deuaidd**' h.y. cyflawnir neu ni fodlonir yr amod sydd ynghlwm wrth daliadau.

Mae i ddull gweithredu o'r fath oblygiad pwysig: hyd yn oed os nad yw'n orfodol dylid ystyried y posibilrwydd o bennu sawl cam sy'n cyfateb i gostau gwahanol er mwyn sicrhau nad yw'r dull gweithredu yn 'rhy ddeuaidd'.

O ran gweithrediadau bach lle y gellid pennu rhai meintiau, byddai'n well dewis costau uned yn hytrach na chyfandaliadau fel arfer.

Dylai'r ddogfen sy'n amlinellu'r amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth i'r buddiolwr gael ei drafftio'n ofalus iawn er mwyn pennu'r sail dros gyfrifo costau a sut y cânt eu lleihau os na chyflawnir yr amcanion. Mae'r mater hwn o ran lleihau'r costau yn hollbwysig yn achos cyfandaliadau oherwydd y problemau posibl a allai gael eu hachosi gan ddull gweithredu deuaidd lle nad oes unrhyw ddewis ond talu 0% neu 100% o'r grant.

Dylid rhoi sylw penodol i'r posibilrwydd o gymhwyso'n ymarferol y ffordd y telir y cyfandaliad. O ystyried y gallai rhai cyfandaliadau fod yn gwbl annibynnol ar feintiau, mae perygl y câi geiriad rhy gyffredinol neu rhy ansoddol ynglŷn â gweithgareddau/ allbynnau/ canlyniadau ei weithredu neu ei lunio er mwyn **ysgogi'r taliad**, a allai ei gwneud yn amhosibl talu ar sail dryloyw neu deg.

Yn uniongyrchol gysylltiedig â phroblem geiriad gweithgareddau/ allbynnau/ canlyniadau mae'r dogfennau ategol sydd eu hangen i'w hasesu: dylent hefyd gael eu nodi yn y ddogfen sy'n amlinellu'r amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth. Yn achos gweithrediadau bach mae'r pwynt hwn o'r pwys mwyaf er mwyn rhoi sicrwydd i weithrediad gael ei drefnu mewn gwirionedd.

Dylai'r dewis o weithgareddau/ allbynnau/ canlyniadau a gwmpesir gan gyfandaliad adlewyrchu'r math o weithrediad a ariennir, gan geisio lliniaru ffactorau allanol a allai effeithio ar y ffordd y rhoddir y gweithrediad ar waith.

Mae cyfandaliadau sy'n seiliedig ar 'ganlyniadau' yn unig yn dwyn risg fawr ac ni ddylent ychwanegu at y risg o ddull gweithredu 'rhy ddeuaidd'.

I grynhoi, dylai'r dewis o gyfandaliad(au) priodol ystyried yr holl fanteision ac anfanteision posibl, gan gynnwys a ddylid defnyddio cyfandaliadau yn hytrach na chostau uned, costau gwirioneddol neu ariannu ar sail cyfradd safonol. **Gallai cyfandaliad delfrydol gynnwys y nodweddion canlynol:**

- cysylltiad clir ac uniongyrchol â gweithgareddau arfaethedig y gweithrediad;
- ffordd hawdd a diamwys o gyfiawnhau'r gweithgareddau/ allbynnau/ canlyniadau;
- mae'n mynd i'r afael â risg ymddygiad camweithredol (ansawdd is, targedu'r cyfranogwyr hawsaf ac ati).

Enghraifft (ESF):

Yn hytrach na defnyddio cost uned sy'n seiliedig ar un allbwn o £7 yr awr o hyfforddiant yr hyfforddai, mae'n bosibl **cyfuno'r gost uned allbwn hwn â chost uned sy'n seiliedig ar ganlyniad**, e.e. nifer y cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster ar adeg gadael.

Byddai 20% o'r costau cymwys terfynol a gyfrifir drwy ddefnyddio 'costau uned' (nid oes angen cyfiawnhau'r gyfradd o 20%) yn cael eu had-dalu ar sail y **canlyniad**, yn seiliedig ar isafswm 'cyfradd lwyddiant' o 75%, dyweder (dylai'r gyfradd o 75% fod yn seiliedig ar brofiad ac yn rhan o'r trywydd archwilio y mae angen i'r awdurdod rheoli ei sicrhau).

Os defnyddir cost uned yn seiliedig ar un allbwn, ar gam arfarnu/ cymeradwyo mae'r uchafswm costau cymwys a ddyrennir ar gyfer y prosiect wedi'i **gapio'n** 1,000 awr x 20 hyfforddai x £7 yr awr yr hyfforddai = £140,000.

Os defnyddir cyfuniad o allbynnau a chanlyniadau, mae'r un broses gapio yn gymwys ond ar sail tybiaethau gwahanol:

- $20\% \times 140,000 = 28,000$ o gostau cymwys am gyflawni canlyniadau: dylai 75% o 20 o hyfforddeion (15 hyfforddai) ennill cymhwyster ar adeg gadael. Yna, y

costau cymwys ar gyfer pob hyfforddai sy'n ennill cymhwyster yw $28,000 / 15 = £1,867$ fesul person wedi'i gymhwyso.

- telir $80\% \times 140,000 = 112,000$ ar gyfer yr 20,000 awr x hyfforddeion a gynllunnir, gan arwain at gost uned o £5.60 yr awr yr hyfforddai.

Ar ddiwedd y gweithrediad, caiff y gwariant cymwys terfynol ar gyfer y gweithgareddau hyn ei bennu gan nifer wirioneddol yr oriau fesul hyfforddai a nifer yr hyfforddeion sy'n ennill cymhwyster:

Er enghraifft, gallai'r costau cyfrifedig terfynol fod fel a ganlyn:

- $17,050$ o oriau o hyfforddiant x £5.60 = £95,480 ar gyfer yr allbynnau.
- 13 o gyfranogwyr wedi'u cymhwyso x £1,867 = £24,271 ar gyfer y canlyniadau.

Costau cymwys terfynol = £95,480 + £24,271 = £119,751

ADRAN 9: Materion pwysig eraill

Cyfuniad o gostau symlach yn yr un gweithrediad

Gall costau symlach gael eu cyfuno yn amodol ar y rheolau canlynol sydd â'r nod o **atal unrhyw ariannu dwbl** o'r un gwariant:

- (1) Mae'n rhaid i bob cost symlach gwmpasu **categoriâu gwahanol o gostau cymwys**; neu
- (2) Mae'n rhaid i bob cost symlach gael ei defnyddio ar gyfer **prosiectau gwahanol** yn yr un gweithrediad; neu
- (3) Mae'n rhaid i bob cost symlach gael ei defnyddio ar gyfer **camau olynol** gweithrediad.

Gweler Adran 3 am y dull gweithredu yng Nghymru o ran diffinio gweithrediadau a phrosiectau o fewn gweithrediadau.

Lle y defnyddir opsiwn 3 (camau olynol - gweler yr enghraifft isod), mae'n rhaid i'r posibilrwydd hwn gael ei gynnig i bob buddiolwr yn yr un sefyllfa neu mewn sefyllfa debyg (tryloywder a thriniaeth gyfartal ar gyfer pob buddiolwr a gweithrediad).

Gallai greu rhywfaint o faich gweinyddol oherwydd **yr angen i ddiwygio'r ddogfen sy'n amlinellu'r amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth (cytundeb ariannu/ cytundeb grant)**, os na chafodd hyn ei ragweld ar y cam arfarnu cychwynnol/ dyfarnu arian a'i gynnwys yn y cytundeb ariannu/ cytundeb grant ar yr un pryd.

Mae'n rhaid i ddisgrifiad manwl o'r gweithrediad gael ei lunio'n glir ar gyfer pob cam gwahanol ac mae'n rhaid i'r awdurdod sy'n rheoli'r rhaglen gytuno arno. Dylai'r gweithrediad gael ei rannu'n o leiaf ddau **gam ariannol, ac yn ddelfrydol, ffisegol neu ddatblygiadol gwahanol, y gellir eu nodi ar wahân** sy'n cyfateb i'r camau dan sylw. Dylid gwneud hyn gyda'r nod o sicrhau proses gweithredu a monitro dryloyw a hwyluso rheolaethau.

Enghraifft: prosiectau/ camau gweithredu gwahanol o fewn yr un gweithrediad

Enghraifft o weithrediad ESF sy'n cynnwys **prosiect hyfforddiant** i bobl ddi-waith ifanc, wedyn **seminar** i ddarpar gyflogwyr y rhanbarth.

Gellid talu'r costau sy'n gysylltiedig â'r hyfforddiant ar sail costau uned (er enghraifft £1,000 fesul diwrnod o hyfforddiant). Byddid yn talu am y seminar ar sail cyfandaliad.

O ystyried bod dau brosiect/ cam gweithredu gwahanol sy'n rhan o'r un gweithrediad, **nid oes risg o ariannu dwbl** gan fod costau pob prosiect wedi'u gwahanu'n glir.

Enghraifft: Camau olynol gweithrediad (yn unol ag Erthygl 67(3) CPR)

Enghraifft o weithrediad sydd **eiso**es wedi **dechrau** ac sy'n cael ei reoli ar sail costau gwirioneddol y mae'r awdurdod rheoli a'r buddiolwr am barhau i'w reoli ar sail costau symlach bellach.

Bydd yn rhaid i'r ddau gam gael eu nodi'n glir. Gallai'r cam cyntaf gael ei gyfrifo ar sail costau gwirioneddol tan ddyddiad penodol. Gallai'r ail gam, ar gyfer gwariant yn y **dyfodol**, gael ei gyfrifo ar sail cost uned, er enghraifft, **os nad yw'r gost uned yn cwmpasu unrhyw ran o'r gwariant a gefnogwyd yn flaenorol**.

Asesu trothwyon – gweithrediadau bach

Mae dau ddull sy'n benodol i ESF yn pennu trothwyon sy'n gysylltiedig â'r costau symlach:

- y posibilrwydd o ddefnyddio **cyllideb ddrafft** i bennu costau symlach ar sail achos unigol ar gyfer grantiau os nad yw'r cymorth cyhoeddus yn fwy nag EUR 100,000;
- y defnydd **gorfodol** o opsiynau costau symlach ar gyfer grantiau os nad yw'r cymorth cyhoeddus yn fwy nag EUR 100,000.

O ran y trothwyon hyn, y symiau a gaiff eu hystyried fydd y rhai a nodir yn y ddogfen sy'n amlinellu'r amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth ar gyfer pob gweithrediad/prosiect. Ni ddylid cynnwys unrhyw gyflogau/ lwfansau i'w had-dalu gan drydydd partion er budd cyfranogwyr ESF yn yr asesiad o drothwy.

Y swm a gaiff ei ystyried yw'r swm o gymorth cyhoeddus **a ddyfernir i'r** buddiolwr, fel y'i nodwyd yn y ddogfen sy'n amlinellu'r amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth, ac felly nid yw'n cynnwys arian cyhoeddus y buddiolwr ei hun fel ei gyfraniad ei hun o arian cyfatebol.

Cydymffurfiaeth â'r rheolau ynglŷn â chymorth gwladwriaethol

Dylid pwysleisio bod rheolau'r UE ynglŷn â chymorth gwladwriaethol yn rhai a gymhwysir yn gyffredinol ac felly pryd bynnag y gall arian fod yn gyfystyr â chymorth gwladwriaethol, mae'n rhaid cydymffurfio â'r rheolau hynny wrth gyfrifo a gweinyddu costau symlach. Felly, mae'n rhaid i awdurdodau sy'n rheoli rhaglenni sicrhau cymhwysedd y costau y mae costau symlach yn gymwys iddynt nid yn unig o dan reolau Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ond hefyd o dan reolau cymorth gwladwriaethol cyfatebol, pan fo hynny'n gymwys.

Yn gyffredinol, mae'n rhaid i opsiynau costau symlach ddefnyddio methodolegau sy'n ei gwneud yn bosibl i **nodi'n glir y costau cymwys** a ddefnyddir i bennu gwerth yr opsiwn a ddewiswyd a **pheidio â chynnwys unrhyw gostau sy'n anghymwys o dan reolau cymorth gwladwriaethol.**

Gan fod yn rhaid i'r fethodoleg a ddefnyddir gydymffurfio â rheolaeth ariannol gadarn a'r egwyddor cydgyllido, mae angen i awdurdodau sy'n rheoli rhaglenni sicrhau bod dull rhesymol a darbodus ar waith er mwyn sicrhau bod costau symlach **yn gostau dirprwyol dibynadwy ar gyfer y costau gwirioneddol.**

Bydd hynny'n helpu i ddangos cydymffurfiaeth ag unrhyw **uchafswm dwysedd cymorth, uchafswm y symiau o gymorth** neu **drothwyon hysbysu** o dan reolau cymorth gwladwriaethol.

Felly, mae methodolegau opsiynau costau symlach yn cael eu harchwilio er mwyn sicrhau eu bod yn unol â rheolau Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd cymwys a'r rheolau ynglŷn â chymorth gwladwriaethol.

Ceir manylion pellach yn Atodiad 2.

Costau symlach mewn gweithrediadau sy'n cynhyrchu refeniw net

Yn gyntaf oll, rhaid cofio mai ffordd o **gyfrifo costau**, 'ochr gwariant' gweithrediad, yn union yr un fath â phe bai costau gwirioneddol yn cael eu defnyddio, yw costau symlach.

Felly, mewn theori, dylai'r defnydd o gostau symlach fod yn annibynnol ar b'un a yw gweithrediad yn cynhyrchu refeniw ai peidio. Fodd bynnag, er mwyn cadw effaith symleiddio, mae Rheoliadau'r UE yn cyflwyno rhai rheolau ychwanegol ar gyfer gweithrediadau sy'n cynhyrchu refeniw os ydynt yn defnyddio cyfandaliadau neu gostau uned.

Noder bod manylion llawn y rheolau sy'n gymwys i brosiectau sy'n cynhyrchu refeniw, a sut y trinnir derbyniadau mewn prosiectau nad ydynt wedi'u dosbarthu'n rhai sy'n 'cynhyrchu refeniw' ar gael yn rheolau cenedlaethol Cymru ar gymhwysedd gwariant. Dim ond goblygiadau i gostau symlach a drafodir yn yr adran hon.

Gweithrediadau sy'n cynhyrchu refeniw net ar ôl iddynt gael eu cwblhau

Nid oes rhaid i refeniw net gael ei ystyried, yn unol ag Erthygl 61(7) (f) o Reoliad 1303/2013 yr UE. Mewn gwirionedd, dylai'r cyfandaliad/ costau uned eisoes gynnwys y refeniw (gweler y paragraff nesaf).

Nid oes unrhyw reolau arbennig os defnyddir cyfraddau safonol, h.y. mae paragraffau 1 i 6 o Erthygl 61 yn gymwys fel arfer.

Gweithrediadau sy'n cynhyrchu refeniw net wrth iddynt gael eu rhoi ar waith ac nad yw paragraffau 1 i 6 o Erthygl 61 Rheoliad 1303/2013 yr UE

Nid oes rhaid didynnu refeniw net:

- Os yw'r cymorth cyhoeddus ar ffurf cyfandaliadau neu gostau uned;
- Os yw'r refeniw net **wedi cael ei ystyried cyn** cyfrifo'r cyfandaliadau neu'r costau uned (yn unol ag Erthygl 65(8) (f) o Reoliad 1303/2013 yr UE).

Os nad ystyriwyd y refeniw net cyn i'r cyfandaliadau neu'r costau uned gael eu cyfrifo, yna bydd yn rhaid i'r gwariant cymwys sy'n cael eu cydgyllido gan Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd **gael ei leihau** heb fod yn hwyrach na'r cais a gyflwynir gan y buddiolwr am daliad terfynol, ar sail pro rata o'r rhannau cymwys ac anghymwys o'r costau.

Lle y defnyddir cyfraddau safonol, mae'n rhaid i unrhyw refeniw net **na chafodd ei ystyried** ar adeg cymeradwyo'r gweithrediad ac a gafodd ei **gynhyrchu'n uniongyrchol yn ystod** y gweithrediad **gael ei ddidynnu o'r gwariant cymwys** sy'n cael ei gydgyllido gan Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ar ôl cymhwyso'r gyfradd safonol) heb fod yn hwyrach na'r cais a gyflwynir gan y buddiolwr am daliad terfynol.

Enghraifft (ESF)

Trefnir cynhadledd i hyrwyddo entrepreneuriaeth. Cyflwynir cyllideb ddrafft gan y buddiolwr gan nodi mai £70,000 fyddai cyfanswm y costau cymwys. Bydd y gynhadledd yn codi ffi fynediad o £3.

Mae'r trefnydd yn disgwyl denu 200 o ymwelwyr. Felly, y refeniw y disgwylir ei gynhyrchu yw $£3 \times 200 = £600$.

Mae'r gynhadledd yn llwyddiant mawr ac mae mwy o ymwelwyr na'r disgwyl (300 o bobl). Gan fod y gweithrediad hwn wedi'i gefnogi gan yr ESF, nid yw Erthygl 61 o Reoliad 1303/2013 yr UE (prosiectau sy'n cynhyrchu refeniw) yn gymwys. Fodd bynnag, mae Erthygl 65(8) o Reoliad 1303/2013 yr UE yn gymwys ac felly mae angen i refeniw net a gynhyrchir yn uniongyrchol yn ystod y gweithrediad gael ei ddidynnu o'r gwariant cymwys.

- Opsiwn 1: mae'r refeniw a gynhyrchir **yn cael ei ystyried** cyn yr adeg dyfarnu arian

Y cyfandaliad a bennir, os cynhelir y gynhadledd, yw mai cyfanswm costau cymwys y gweithrediad fydd $£70\,000 - £600 = £69\,400$.

Mae cymorth cyhoeddus i'r gweithrediad hwn ar ffurf cyfandaliad ac mae **refeniw**

wedi cael ei ystyried wrth bennu'r cyfandaliad. Nid yw gwir nifer yr ymwelwyr yn cael effaith ar y swm cymwys (cyfandaliad). **Hyd yn oed os bydd y refeniw yn fwy na'r rhagolwg, ni fydd hyn yn effeithio ar y cyfandaliad a delir.**

Bydd y trywydd archwilio yn gofyn am brawf i'r gynhadledd gael ei chynnal a phrawf o bris y tocyn mynediad.

- Opsiwn 2: mae'r refeniw a gynhyrchir **yn cael ei ystyried** cyn y cam dyfarnu arian ond mae'r amodau yn newid yn ystod gweithrediad

Y cyfandaliad a bennir, os cynhelir y gynhadledd, yw mai cyfanswm costau cymwys y gweithrediad fydd $\text{£}70\,000 - \text{£}600 = \text{£}69\,400$. Mae cymorth cyhoeddus i'r gweithrediad hwn ar ffurf cyfandaliad ac mae refeniw wedi cael ei ystyried wrth bennu'r cyfandaliad.

Fodd bynnag, yn y pen draw, mae'r trefnydd yn penderfynu codi pris o £5 yn hytrach na £3 am y tocyn mynediad. Yn yr achos hwn, dylai'r **bwlch ariannu ychwanegol** gael ei ddidynnu ($(\text{£}5 \times 300) - \text{£}600 = \text{£}900$).

Cyfanswm y costau cymwys fydd $\text{£}69\,400 - \text{£}900 = \text{£}68\,500$

- Opsiwn 3: **nid** yw'r refeniw a gynhyrchir yn cael ei ystyried cyn yr adeg dyfarnu arian

Y cyfandaliad a bennir, os cynhelir y gynhadledd, yw mai cyfanswm costau cymwys y gweithrediad fydd £70 000. Mae cymorth cyhoeddus i'r gweithrediad hwn ar ffurf cyfandaliad ac nid yw refeniw wedi cael ei ystyried wrth bennu'r cyfandaliad.

Ar ôl i'r buddiolwr wneud cais i gael ei ad-dalu (£70,000) bydd angen iddo roi tystiolaeth i'r gynhadledd gael ei chynnal. Bydd angen didynnu'r refeniw gwirioneddol a gynhyrchir yn ystod y gweithrediad hefyd ($\text{£}3 \times 300 = \text{£}900$).

Yn yr achos hwn, y costau cymwys ar gyfer y cyfandaliad fydd $\text{£}70\,000 - \text{£}900 = \text{£}69\,100$.

‘Trawsariannu’ ERDF ac ESF (hyblygrwydd ar draws cronfeydd)

Yn unol â Rheoliadau'r UE [Erthygl 98(2) o Reoliad 1303/2013 yr UE], bydd camau i drawsariannu ERDF ac ESF yn golygu bod rheolau cymhwysedd y Gronfa arall yn gymwys.

Yn benodol ar gyfer cyfraddau safonol mewn achosion o drawsariannu, gallai fod angen dwy gyfradd safonol ar gyfer rhannau ‘ESF’ ac ‘ERDF’ o'r gweithrediad. Er enghraifft, gallai'r rhan ERDF fod yn gymwys i ddefnyddio'r gyfradd safonol o 25% ar gyfer costau anuniongyrchol, gan efelychu Horizon 2020/Horizon Ewrop, a gall y rhan ESF fod yn gymwys i ddefnyddio'r gyfradd safonol o 15% ar gyfer costau anuniongyrchol sydd ar gael i bob gweithrediad (15% o gostau staff).

Ni chaniateir defnyddio cyfartaledd o'r ddwy gyfradd safonol oherwydd gallai cyfran gymharol pob rhan amrywio yn ystod gweithrediad.

Mae cymhwyso'r opsiynau costau symlach yn gofyn o hyd am i'r awdurdodau sy'n rheoli rhaglenni barchu'r terfyn o 10% ar gyfer pob echel blaenoriaeth (yn ôl Cronfa a chategori o ranbarth lle y bo'n berthnasol). Dylai'r swm 'a drawsariennir' gael ei gofnodi a'i fonitro, fesul gweithrediad, ar sail y data a ddefnyddir i bennu'r opsiynau costau symlach.

Enghraifft o drawsariannu ESF-ERDF ag unedau cost-cyfandaliadau

Os bydd cost uned o £6 yr awr x hyfforddai (math ESF o wariant) yn cynnwys prynu seilwaith (math ERDF o wariant) am £0.50 yr awr, y **swm a drawsariennir** fydd £0.50 x nifer yr 'oriau x hyfforddai' a wireddir.

Mae'r un egwyddor yn gymwys i gyfandaliadau: os bydd y gyllideb fanwl ddrafft yn cynnwys rhywfaint o 'wariant a drawsariennir', bydd angen cyfrifo amdano a'i fonitro ar wahân. Er enghraifft, o fewn cyfandaliad o £20,000 a ariennir gan raglen ESF, y math ERDF o wariant yw £5 000.

Ar ddiwedd y gweithrediad, y swm a drawsariennir (y symiau sy'n ddarostyngedig i reolau ERDF) fydd y swm a bennir cyn yr adeg dyfarnu arian (£20,000 y mae £5,000 ohono yn fath ERDF o wariant) neu 'sero' os na thelir y grant am nad yw'r amodau wedi'u bodloni. Mae egwyddor ddeuaidd cyfandaliadau (cyflawnir amodau'n llawn neu ni chyflawnir amodau o gwbl) hefyd yn gymwys i wariant a drawsariennir.

Enghraifft o drawsariannu ESF-ERDF â chyfraddau safonol

Yn achos cyfradd safonol ar gyfer costau anuniongyrchol, y swm a drawsariennir fydd y swm o 'gostau uniongyrchol a drawsariennir', wedi'i ychwanegu at gostau

anuniongyrchol a gyfrifir yn ôl y gyfradd safonol sy'n gymwys i'r 'costau uniongyrchol a drawsariennir' hyn.

Er enghraifft, o fewn gweithrediad gwerth £15,000 a ariennir gan raglen ERDF, y costau uniongyrchol 'math ESF' yw £3,000 a chyfrifir costau anuniongyrchol fel 10% o gostau uniongyrchol (£300).

Y swm a drawsariennir (symiau sy'n ddarostyngedig i reolau ESF) fyddai £3,300.

Os yw'r costau uniongyrchol yn is ar ddiwedd y gweithrediad, caiff y swm a drawsariennir ei leihau yn unol â'r un fformiwla.

Cofnodi ac archwilio arian cyfatebol (cydgyllido cenedlaethol)

Caiff gwariant cymwys a ddatgenir ar sail costau symlach ei drin fel gwariant 'costau gwirioneddol' yr eir iddo ac a delir gan fuddiolwyr.

Felly, gan dybio mai'r unig ffynhonnell o arian cyfatebol yw'r buddiolwr ei hun (hunanariannu) ar gyfradd o 25% (cyfradd grant o 75%):

Dull costau gwirioneddol

- | | |
|-----------------------|----------|
| • Costau gwirioneddol | £100,000 |
| • Cyfraniad yr UE | £75,000 |
| • Arian cyfatebol | £25,000 |

Ceir sicrwydd ynglŷn â realiti'r arian cyfatebol yn ystod dilysiadau ac archwiliadau'n anuniongyrchol, drwy brofi realiti'r gwariant costau gwirioneddol. Hynny yw, os gellir dangos i'r buddiolwr dalu £100,000 o gostau cymwys mewn gwirionedd ac i'r UE ad-dalu £75,000, mae'n rhaid bod y buddiolwr wedi cyfrannu'r bwlch ariannu o £25,000 (yn niffyg unrhyw gyllidwr trydydd parti hysbys).

Costau symlach

- | | |
|---|----------|
| • Costau cymwys a gyfrifir drwy ddefnyddio costau symlach | £100,000 |
| • Cyfraniad yr UE | £75,000 |
| • Arian cyfatebol | £25,000 |

Caiff gwariant cymwys a ddatgenir ar sail costau symlach ei drin fel gwariant yr eir iddo mewn gwirionedd ac a delir gan y buddiolwyr. Os daw dilysiadau ac

archwiliadau i'r casgliad bod costau symlach wedi cael eu cyfrifo a'u cymhwyso'n gywir, caiff y bwlch ariannu (£25,000) ei ddatgan yn gyfraniad arian cyfatebol y buddiolwr heb fod angen archwilio unrhyw ddogfennau ariannol ategol.

Cyfraniadau ariannol trydydd parti (arian cyfatebol)

Dylai derbyniadau gwirioneddol o arian gan drydydd partïon (unrhyw ffynhonnell ar wahân i arian y buddiolwr ei hun) barhau i gael eu datgan fel y symiau gwirioneddol a dderbyniwyd. Mae hyn yn parhau i fod yn gwbl archwiliadwy ac mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r rheolau cyffredinol ynglŷn ag arian cyfatebol e.e. mae'n rhaid iddo fod yn ffynhonnell genedlaethol o arian, yn hytrach nag arian cyhoeddus Ewropeaidd.

Dylai cyllidwyr trydydd parti sy'n ymrwymo i roi cymorth yn seiliedig ar wariant cymwys y gweithrediad (yn hytrach na swm penodol waeth beth fo'r costau) gael eu hysbysu bod costau symlach yn cael eu defnyddio ac na ddylid dehongli'r gwerthoedd a ddatganwyd fel union 'gostau gwirioneddol' y buddiolwr.

ATODIAD 1: Rhagor o enghreifftiau ymarferol

Enghraifft o grant i fuddiolwr sy'n bwriadu **trefnu seminar ar gyfer 50 o gyfranogwyr** er mwyn cyflwyno adnoddau gweithredu newydd. Mae staff y prosiect yn treulio amser yn cynllunio ac yn trefnu'r digwyddiad, mae lleoliad yn cael ei rentu, mae rhai siaradwyr yn dod o dramor, a bydd yn rhaid i gofnodion y digwyddiad gael eu cyhoeddi. Ceir costau anuniongyrchol hefyd sy'n ymwneud â staff (costau cyfrifyddu, cyfarwyddwr, ac ati) a thrydan, biliau ffôn, cymorth TG, ac ati.

Mae'r gyllideb ddrafft o 'gostau gwirioneddol' a ragwelir fel a ganlyn, a chedwir at yr un ffurf ar gyfer pob posibilrwydd ac opsiwn fel y gellir gweld y gwahaniaethau'n gliriach:

<i>Cyfanswm y Costau Uniongyrchol</i>	<i>45,000</i>
Costau Staff Uniongyrchol	30,000
Costau ystafell	4,000
Costau teithio	5,000
Prydau bwyd	1,000
Gwybodaeth/ Cyhoeddusrwydd	5,000

<i>Cyfanswm y Costau Anuniongyrchol</i>	<i>5,000</i>
Costau Staff Anuniongyrchol	4,000
Trydan, ffôn, ac ati.	1,000

Posibilrwydd 1: costau uned

Egwyddor: cyfrifir yr holl wariant cymwys neu ran ohono ar sail gweithgareddau, allbynnau neu ganlyniadau wedi'u meintoli wedi'u lluosu â chost uned a bennwyd ymlaen llaw.

Ar gyfer y seminar, gellid pennu cost uned o £1,000 fesul person sy'n dod i'r seminar, a'r gyllideb ddrafft fydd:

- Uchafswm nifer y personau sy'n dod i'r seminar = 50
- Cost uned fesul person sy'n dod i'r seminar = £1,000 yr un
- Cyfanswm y gost gymwys = $50 \times 1,000 = £50,000$.

Os bydd 48 o bobl yn dod i'r seminar, y gost gymwys derfynol fydd: $48 \times 1,000 = £48,000$

Trywydd archwilio allweddol:

- Mae'r awdurdod rheoli yn cadw dogfennaeth ynglŷn â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i bennu gwerth y gost uned;
- Mae'r awdurdod rheoli yn sicrhau bod y ddogfen sy'n amlinellu'r amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth (cytundeb ariannu/ cytundeb grant) yn nodi'r gost uned y cytunwyd arni a'r ffactorau sy'n ysgogi taliadau;
- Mae'r buddiolwr yn cadw prawf o bresenoldeb yn y seminar (taflenni presenoldeb).

Noder: Yn yr achos hwn nid oes angen dilysu cymhwysedd cyfranogwyr gan ei fod yn agored i bawb. Pryd bynnag y bydd yn rhaid i gyfranogwyr wedi'u targedu gydymffurfio â phroffil penodol, mae'n rhaid dilysu eu cymhwysedd o hyd.

Posibilrwydd 2: Cyfandaliadau

Egwyddor: caiff holl wariant cymwys gweithrediad neu ran ohono ei ad-dalu ar sail un swm a bennwyd ymlaen llaw, yn unol â thelerau rhagnodedig cytundeb ynglŷn â gweithgareddau a/neu allbynnau (sy'n cyfateb i un uned). Telir y grant os cwblheir telerau rhagnodedig cytundeb ynglŷn â gweithgareddau a/neu allbynnau.

Gellid pennu cyfandaliad o £50,000 ar gyfer '*trefnu'r seminar*' (yn annibynnol ar nifer y cyfranogwyr) i gyflwyno adnoddau gweithredu newydd.

Byddai'r gyllideb ddrafft fel a ganlyn:

- Nod y cyfandaliad = trefnu seminar i gyflwyno adnoddau gweithredu newydd
- Cyfanswm y gost gymwys = £50,000

Os trefnir y seminar ac os cyflwynir adnoddau gweithredu newydd, gellir datgan cyfandaliad o £50,000 yn gostau cymwys. Os na threfnir y seminar neu os na chyflwynir adnoddau gweithredu newydd, **ni thelir dim**.

Trywydd archwilio allweddol:

- Mae'r awdurdod rheoli yn cadw dogfennaeth ynglŷn â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i bennu gwerth y gost uned;
- Mae'r awdurdod rheoli yn sicrhau bod y ddogfen sy'n amlinellu'r amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth (cytundeb ariannu/ cytundeb grant) yn nodi'r gost uned y cytunwyd arni a'r ffactorau sy'n ysgogi taliadau;
- Mae'r buddiolwr yn cadw prawf i'r seminar gael ei gynnal a bod ei gynnwys yn angenrheidiol (erthyglau papurau newydd, gwahoddiad a rhaglen, lluniau ac ati).

Posibilrwydd 3: Cyfraddau safonol

D.S: caiff y symiau sy'n deillio o'r cyfrifiadau eu talgrynnu'n artiffisial.

Egwyddor gyffredinol: Caiff categorïau penodol o gostau cymwys a nodir yn glir ymlaen llaw eu cyfrifo drwy gymhwyso canran sydd ynghlwm wrth un neu sawl categori arall o gostau cymwys.

Gellir cymhwyso'r cyfraddau safonol yn Erthyglau 68, 68a a 68b CPR i sefydlu categorïau perthnasol costau cyllideb ddrafft yn ogystal â'r rhai a ddiffiniwyd yn rheolau cymhwysedd cenedlaethol Cymru.

Opsiwn 1: cyfraddau safonol ar gyfer pob cost heblaw am gostau staff uniongyrchol

Cymhwysir cyfradd safonol o 47% at yr holl gostau staff uniongyrchol i gyfrifo'r costau eraill:

<i>categorïau o gostau cymwys y caiff y gyfradd sydd i'w chymhwyso er mwyn cyfrifo'r symiau cymwys (math 1) eu seilio arnynt</i>	Costau staff = 34,000
<i>y gyfradd safonol ei hun</i>	47%
<i>categorïau o gostau cymwys a gaiff eu cyfrifo â'r gyfradd safonol (math 2)</i>	Pob 'cost arall' = 47% o gostau staff = 47% x 34.000 = 16,000

=> Cyfanswm y costau cymwys = 34,000 + 16,000 = 50,000.

Mae'r gyllideb ddrafft ar y ffurf ganlynol:

Costau staff (math 1) yn seiliedig ar gostau gwirioneddol:	34,000
Costau eraill (math 2) = 47% x costau staff	16,000
Cyfanswm y costau cymwys	50,000

Trywydd archwilio allweddol

<i>categorïau o gostau</i>	Costau staff uniongyrchol = prawf o'r costau hyn
----------------------------	--

<i>cymwys y caiff y gyfradd sydd i'w chymhwyso er mwyn cyfrifo'r symiau cymwys eu seilio arnynt</i>	(slipiau cyflog, taflenni amser, cyfriflenni banc ac ati)
<i>y gyfradd safonol</i>	- Mae angen i'r awdurdod rheoli gadw'r ddogfen sy'n profi'r dull cyfrifo ar gyfer y gyfradd o 47%; - Mae'r awdurdod rheoli yn sicrhau bod y ddogfen sy'n amlinellu'r amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth (cytundeb ariannu/ cytundeb grant) yn nodi telerau ac amodau'r opsiynau costau symlach y cytunwyd arnynt.
<i>categoriâu o gostau cymwys a gaiff eu cyfrifo â'r gyfradd safonol</i>	Nid oes angen cyfiawnhad.

Opsiwn 2: cyfradd safonol ar gyfer costau anuniongyrchol

Mae cymhwyso cyfradd safonol o 15% er mwyn cyfrifo'r gost anuniongyrchol ond yn gymwys i gostau staff uniongyrchol. Nid oes angen cyfiawnhau'r gyfradd o 15% ei hun o ystyried ei bod wedi'i rhagnodi gan Reoliad yr UE.

<i>categoriâu o gostau cymwys y caiff y gyfradd sydd i'w chymhwyso er mwyn cyfrifo'r symiau cymwys (math 1) eu seilio arnynt</i>	Costau staff uniongyrchol = 30,000
<i>y gyfradd safonol</i>	15% (nid oes angen cyfiawnhad)
<i>categoriâu o gostau cymwys a gaiff eu cyfrifo â'r gyfradd safonol (math 2)</i>	Costau anuniongyrchol (wedi'u cyfrifo) = 15% o gostau staff uniongyrchol = 15% x 30,000 = 4,500
<i>categoriâu o gostau cymwys na chaiff y gyfradd ei chymhwyso atynt ac na chânt eu cyfrifo â'r gyfradd safonol (math 3)</i>	Costau uniongyrchol eraill (costau ystafell, costau teithio, prydau bwyd, gwybodaeth, cyhoeddusrwydd) = 15,000

Cyfanswm y costau cymwys = Costau staff uniongyrchol + costau anuniongyrchol wedi'u cyfrifo + costau uniongyrchol eraill = 30,000 + 4,500 + 15,000 = 49,500

Mae'r gyllideb ddrafft ar y ffurf ganlynol:

Costau staff	30,000	=>	Costau anuniongyrchol (math	4,500
--------------	--------	----	-----------------------------	-------

uniongyrchol (math 1)	
-----------------------	--

2) = 15% o gostau staff uniongyrchol	
--------------------------------------	--

(wedi'u cyfrifo)

Costau uniongyrchol eraill (math 3):	
Costau ystafell	4,000
Costau teithio	5,000
Prydau bwyd	1,000
Gwybodaeth / Cyhoeddusrwydd	5,000

(yn seiliedig ar gostau gwirioneddol)

Cyfanswm y costau cymwys	49,500
--------------------------	--------

Trywydd archwilio allweddol:

<i>categoriâu o gostau cymwys y caiff y gyfradd sydd i'w chymhwyso er mwyn cyfrifo'r symiau cymwys eu seilio arnynt</i>	Costau staff uniongyrchol = - prawf o gostau cyflog (slipiau cyflog, taflenni amser os yw'n berthnasol, cyfriflenni banc, anfoneb fanwl darparwr staff allanol ac ati)
<i>y gyfradd safonol</i>	Mae angen cyfeirio at Reoliadau'r UE (Erthygl 68(b)) yn y ddogfen sy'n amlinellu'r amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth.
<i>categoriâu o gostau cymwys a gaiff eu cyfrifo â'r gyfradd safonol</i>	Nid oes angen cyfiawnhad.
<i>categoriâu o gostau cymwys na chaiff y gyfradd ei chymhwyso atynt ac na chânt eu cyfrifo â'r gyfradd safonol</i>	Dylid cyfiawnhau costau uniongyrchol eraill megis costau ystafell, costau teithio, prydau bwyd, gwybodaeth a chyhoeddusrwydd drwy anfonebau perthnasol a phrawf o gyflawni os yw hynny'n berthnasol.

Opsiw'n 3: ariannu ar sail cyfradd safonol ar gyfer gweithrediadau ESF

Cymhwyso'r gyfradd safonol o 40% a ddarperir gan Reoliadau'r UE (dim ond at y costau staff uniongyrchol er mwyn cyfrifo holl gostau eraill y gweithrediad). Nid oes angen cyfiawnhau'r gyfradd o 40% ei hun o ystyried ei bod wedi'i rhagnodi gan y Rheoliad.

ATODIAD 2: Cydymffurfiaeth costau symlach â'r rheolau ynglŷn â chymorth gwladwriaethol – enghraifft ymarferol

Mae cwmni yn cael grant o dan gynllun cymorth gwladwriaethol i **weithredu prosiect hyfforddiant** i'w staff.

Ceir cymorth cyhoeddus o £2 filiwn. Mae'r cymorth hwn yn is na'r trothwy o EUR 2 filiwn a nodir yn Erthygl 4(1) (n) o Reoliad (UE) Rhif 651/2014 ac felly mae'r Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol yn gymwys.

Mae'r buddiolwr a'r awdurdod rheoli yn cytuno i ddefnyddio costau uned er mwyn pennu **cost y cwrs fesul cyfranogwr**.

Noda Erthygl 31 o'r Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol y canlynol ynglŷn â chymorth hyfforddiant:

- “
1. Training aid shall be compatible with the internal market within the meaning of Article 107(3) of the Treaty and shall be exempted from the notification requirement of Article 108(3) of the Treaty, provided that the conditions laid down in this Article and in Chapter I are fulfilled.
 2. Aid shall not be granted for training which undertakings carry out to comply with national mandatory standards on training.
 3. The **eligible costs** shall be the following:
 4. (a) trainers' personnel costs, for the hours during which the trainers participate in the training;
 5. (b) trainers' and trainees' operating costs directly relating to the training project such as travel expenses, materials and supplies directly related to the project, depreciation of tools and equipment, to the extent that they are used exclusively for the training project. Accommodation costs are excluded except for the minimum necessary accommodation costs for trainees' who are workers with disabilities;
 6. (c) costs of advisory services linked to the training project;
 7. (d) trainees' personnel costs and general indirect costs (administrative costs, rent, overheads) for the hours during which the trainees participate in the training.
 8. The **aid intensity** shall not exceed 50% of the eligible costs. It may be increased, up to a maximum aid intensity of 70% of the eligible costs, as follows:
 9. (a) by 10 percentage points if the training is given to workers with disabilities or disadvantaged workers;
 10. (b) by 10 percentage points if the aid is granted to medium-sized enterprises and by 20 percentage points if the aid is granted to small enterprises;
 11. Where the aid is granted in the maritime transport sector, the aid intensity may be increased to 100% of the eligible costs provided that the following conditions are met: a.

(a) the trainees are not active members of the crew but are supernumerary on board;
and (b) the training is carried out on board of ships entered in Union registers. ”

Mae'r awdurdod rheoli yn penderfynu pennu costau uned er mwyn penderfynu ar wariant cymwys y prosiectau. Mae'n defnyddio data ystadegol (yn unol ag Erthygl 67(5) (a) (i) o Reoliad 1303/2013 yr UE) ynglŷn â math tebyg o hyfforddiant mewn ardal ddaearyddol benodol.

Ar ôl triniaeth briodol o'r data ystadegol, y **costau cyfartalog** canlyniadol fesul eitem o wariant ar gyfer y math hwn o gwrs gyda nifer debyg o gyfranogwyr yw:

Costau uniongyrchol (mewn miliynau £)		Costau anuniongyrchol (mewn miliynau £)	
Hyfforddwr — costau teithio	0.1	Cyfanswm y costau cymwys	50 000
Hyfforddeion — cydnabyddiaeth	1.4	Gweinyddiaeth	0.175
Hyfforddeion — llety	0.55	Rhent	0.15
Hyfforddeion — costau teithio	0.25	Gorbenion	0.125
Nwyddau traul na ellir eu dibrisio	0.2	Cyfanswm anuniongyrchol	0.45
Cyhoeddusrwydd	0.2		
Costau sefydliadol	0.4		
Cyfanswm y costau uniongyrchol	4.1		

Wrth brosesu'r data, mae'r awdurdod rheoli yn didynnu pob cost anghymwys o dan reolau Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd **a'r rheolau ynglŷn â chymorth gwladwriaethol**.

Nid yw'r costau canlynol yn gymwys mewn perthynas â chymorth hyfforddiant yn unol ag Erthygl 31 o Reoliad 651/2014:

Costau llety hyfforddeion gan nad yw'r hyfforddeion yn weithwyr sydd ag anableddau (£0.5 miliwn).

Felly, ni all y gost uned gynnwys costau llety hyfforddeion. Mae'r cyfrifiad fel a ganlyn:

Cyfanswm costau cymwys yr hyfforddiant

$£4.5m - (£0.55m) = £4m$

(cyfanswm costau – costau anghymwys)

Nifer ddisgwyliedig o gyfranogwyr sy'n cwblhau'r hyfforddiant	2,000
--	-------

Costau fesul cyfranogwr sy'n cwblhau'r hyfforddiant (graddfa safonol o gost uned)	$\text{£4m} / 2,000 \text{ o gyfranogwyr} = \text{£2,000 y cyfranogwr}$
--	---

Yr arian dros dro yw £4m o gostau cymwys, wedi'i ariannu fel a ganlyn:

Arian cyhoeddus (cenedlaethol + ESF)	£2 filiwn
---	-----------

Arian preifat (hunanariannu)	£2 filiwn
-------------------------------------	-----------

Dwysedd cymorth gwladwriaethol	50%
---------------------------------------	-----

Mae Erthygl 31(4) o Reoliad 651/2014 **yn cyfyngu dwysedd cymorth i 50%** o'r costau cymwys a bennwyd yn y ddogfen sy'n amlinellu'r amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth i'r prosiect, felly mae'r gyllideb dros dro yn unol â'r gofyniad hwn.

Ar ôl gweithredu'r prosiect, bydd y gost gymwys yn seiliedig ar y nifer wirioneddol o gyfranogwyr sy'n cwblhau'r hyfforddiant. Os mai dim ond 1,500 o gyfranogwyr sy'n cwblhau'r hyfforddiant, bydd y cymorth fel a ganlyn:

Cyfanswm y costau cymwys i'w datgan i'r CE	$\text{£2 000} \times 1,500 = \text{£3 miliwn}$
---	---

Arian cyhoeddus (cenedlaethol + ESF)	£1.5 filiwn
---	-------------

Arian preifat (hunanariannu)	£1.5 filiwn
-------------------------------------	-------------

Dwysedd cymorth gwladwriaethol	50%
---------------------------------------	-----

ATODIAD 3: Costau symlach ar gyfer mesurau EAFRD

Yn seiliedig ar y canllawiau a roddir, cyflwynir rhestr o fesurau a allai ddod o dan gwmpas costau symlach isod. Ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn hollgynhwysfawr. Dull dangosol o dargedu'r rhaglenni datblygu gwledig yn briodol ydyw. **Nid yw'r taliadau a nodir yn y Rheoliad sydd eisoes yn defnyddio graddfa safonol o gost uned (h.y. fesul hectar neu fesul uned da byw) wedi cael eu cynnwys.**

<i>Mesur o dan</i> <i>Reoliad (UE) Rhif 1305/2013 neu Reoliad (UE) Rhif 1303/2013</i>		<i>Cod</i>	<i>Is-fesur at ddibenion rhaglennu (lle y bo'n berthnasol)</i>	<i>Opsiynau costau symlach (le/Na)</i>	<i>Sylwadau</i>
Erthygl 14	trosglwyddo gwybodaeth a chamau gweithredu gwybodaeth	1	cymorth ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol a dysgu sgiliau	le	Nis caniateir os rhoddir y mesur hwn ar waith drwy gaffael cyhoeddus Fe'i caniateir o dan drothwyon caffael cyhoeddus a darparwr mewnol
			cymorth ar gyfer gweithgareddau arddangos a chamau gweithredu gwybodaeth	le	
			cymorth ar gyfer teithiau cyfnewid rheoli ffermydd a choedwigaeth byrdymor yn ogystal ag ymweliadau â ffermydd a choedwigoedd	le	
Erthygl 15	gwasanaethau cynghori, gwasanaethau rheoli ffermydd a chymorth i ffermydd	2	help i gael budd o ddefnyddio gwasanaethau cynghori	Na	
			cymorth i sefydlu trefniadau rheoli fferm, cymorth i ffermydd a gwasanaethau cynghori ffermydd yn ogystal â gwasanaethau cynghori coedwigaeth	Na	
			cymorth i hyfforddi cynghorwyr	Na	
Erthygl 16	cynlluniau ansawdd ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a bwydydd	3	cymorth i gyfranogwyr newydd mewn cynlluniau ansawdd	le	
			cymorth ar gyfer gweithgareddau gwybodaeth a hyrwyddo a weithredir gan grwpiau o gynhyrchwyr yn y farchnad fewnol	le	

Erthygl 17	buddsoddiadau mewn asedau ffisegol	4	cymorth ar gyfer buddsoddiadau mewn daliadau amaethyddol	le	
			cymorth ar gyfer buddsoddiadau mewn prosesu/marchnata a/neu ddatblygu cynhyrchion amaethyddol	le	
			cymorth ar gyfer buddsoddiadau mewn seilwaith sy'n gysylltiedig â datblygu, moderneiddio neu addasu amaethyddiaeth a choedwigaeth	le	
			cymorth ar gyfer buddsoddiadau anghynhyrchiol sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion amaeth-amgylcheddol-hinsawdd	le	
Erthygl 18	adfer niwed posibl i gynhyrchu amaethyddol yn sgil trychinebau naturiol a chyflwyno mesurau atal priodol	5	cymorth ar gyfer buddsoddiadau mewn camau ataliol sydd â'r nod o leihau canlyniadau tebygol trychinebau naturiol, digwyddiadau hinsoddol andwyol a digwyddiadau trychinebus	le	
			cymorth ar gyfer buddsoddiadau i adfer tir amaethyddol a chynhyrchu a niweidir o bosibl yn sgil trychinebau naturiol, digwyddiadau hinsoddol andwyol a digwyddiadau trychinebus	le	
Erthygl 19	datblygu ffermydd a busnesau	6	cymorth i ddechrau busnes i ffermwyr ifanc	Na	
			cymorth i ddechrau busnes ar gyfer gweithgareddau anamaethyddol mewn ardaloedd gwledig	Na	
			cymorth i ddechrau busnes i ddatblygu ffermydd bach	Na	
			cymorth ar gyfer buddsoddiadau mewn creu a datblygu gweithgareddau anamaethyddol	le	
			taliadau i ffermwyr sy'n gymwys i fod yn rhan o'r cynllun ffermwyr bach sy'n trosglwyddo eu daliad yn barhaol i ffermwr arall	Na	
Erthygl 20	gwasanaethau sylfaenol ac adnewyddu	7	cymorth i lunio a diweddarau cynlluniau ar gyfer datblygu bwrdeistrefi a phentrefi mewn ardaloedd gwledig a'u gwasanaethau sylfaenol, a chynlluniau diogelu a rheoli sy'n	le	

	pentrefi mewn ardaloedd gwledig		ymwneud â safleoedd Natura 2000 ac ardaloedd eraill o werth natur uchel		
			cymorth ar gyfer buddsoddiadau mewn creu, gwella neu ehangu pob math o seilwaith ar raddfa fach, gan gynnwys buddsoddiadau mewn ynni adnewyddadwy ac arbed ynni	le	
			cymorth ar gyfer seilwaith band eang, gan gynnwys ei greu, ei wella a'i ehangu, seilwaith band eang goddefol a darparu mynediad i fand eang ac e-lywodraeth gyhoeddus	le	
			cymorth ar gyfer buddsoddiadau mewn sefydlu, gwella neu ehangu gwasanaethau sylfaenol lleol i'r boblogaeth wledig, gan gynnwys hamdden a diwylliant, a'r seilwaith cysylltiedig	le	
			cymorth ar gyfer buddsoddiadau ar gyfer defnydd cyhoeddus mewn seilwaith hamdden, gwybodaeth i dwristiaid a seilwaith twristiaeth ar raddfa fach	le	
			cymorth ar gyfer astudiaethau/ buddsoddiadau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw, adfer ac uwchraddio treftadaeth ddiwylliannol a naturiol pentrefi, tirweddau gwledig a safleoedd o werth natur uchel gan gynnwys agweddau economaidd-gymdeithasol cysylltiedig, yn ogystal â chymau gweithredu ymwybyddiaeth amgylcheddol	le	
			cymorth ar gyfer buddsoddiadau sy'n targedu adleoli gweithgareddau ac addasu adeiladau neu gyfleusterau eraill sydd wedi'u lleoli y tu mewn i aneddiadau gwledig neu'n agos iddynt, gyda'r nod o wella ansawdd bywyd neu wella perfformiad amgylcheddol yr anheddiad	le	
			eraill	le	
Erthygl 21	buddsoddiadau mewn datblygu	8	cymorth i goedwigo/creu coetir, ei sefydlu a'i gynnal a'i gadw	le	Ac eithrio gwaith cynnal a chadw

	ardaloedd coedwigoedd a gwella hyfywedd coedwigoedd		cymorth i sefydlu a chynnal a chadw systemau amaeth-goedwigaeth	le	
			cymorth i atal difrod i goedwigoedd oherwydd tanau coedwigoedd a thrychinebau naturiol a digwyddiadau trychinebus	le	
			cymorth i adfer difrod i goedwigoedd oherwydd tanau coedwigoedd a thrychinebau naturiol a digwyddiadau trychinebus	le	
			cymorth ar gyfer buddsoddiadau sy'n gwella gallu ecosystemau coedwigoedd i wrthsefyll a'u gwerth amgylcheddol	le	
			cymorth ar gyfer buddsoddiadau mewn technolegau coedwigaeth ac mewn prosesu, symud a marchnata cynhyrchion coedwigaeth	le	
Erthygl 27	sefydlu grwpiau a sefydliadau cynhyrchwyr	9	sefydlu grwpiau a sefydliadau cynhyrchwyr yn y sector amaethyddiaeth a'r sector coedwigaeth	Na	
Erthygl 28	amaeth-amgylchedd-hinsawdd	10	taliadau am ymrwymadau amaeth-amgylcheddol-hinsawdd	Na	
			cymorth i warchod adnoddau genetig mewn amaethyddiaeth a'u defnyddio'n gynaliadwy a'u datblygu	Na	
Erthygl 29	ffermio organig	11	taliadau i droi at arferion a dulliau ffermio organig	Na	
			taliadau i gynnal arferion a dulliau ffermio organig	Na	
Erthygl 30	Taliadau Natura 2000 a'r Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr	12	iawndal ar gyfer ardaloedd amaethyddol Natura 2000	Na	
			iawndal ar gyfer ardaloedd coedwigaeth Natura 2000	Na	
			iawndal ar gyfer ardaloedd amaethyddol sydd wedi'u cynnwys mewn cynlluniau rheoli basn afon	Na	
Erthygl 31	taliadau i ardaloedd sy'n wynebu cyfyngiadau	13	iawndal mewn ardaloedd mynyddig	Na	
			iawndal ar gyfer ardaloedd eraill sy'n wynebu cyfyngiadau naturiol sylweddol	Na	

	naturiol neu gyfyngiadau penodol eraill		iawndal ar gyfer ardaloedd eraill yr effeithir arnynt gan gyfyngiadau penodol	Na	
Erthygl 33	lles anifeiliaid	14	taliadau am les anifeiliaid	Na	
Erthygl 34	gwasanaethau coedwig-amgylcheddol a gwasanaethau hinsawdd a gwarchod coedwigoedd	15	taliadau am ymrwymïadau coedwig-amgylcheddol	Na	
			cymorth i warchod a hyrwyddo adnoddau genetig coedwigoedd	le	
Erthygl 35	cydweithredu	16	cymorth i sefydlu grwpiau gweithredol y Bartneriaeth Arloesi Ewropeaidd ar gyfer cynhyrchiant a chynaliadwyedd amaethyddol	le	
			cymorth ar gyfer prosiectau peilot ac i ddatblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd	le	
			cydweithrediad ymhlith gweithredwyr bach o ran trefnu prosesau cydweithio â rhannu cyfleusterau ac adnoddau, ac i ddatblygu a marchnata twristiaeth	le	
			cymorth i gydweithrediad llorweddol a fertigol ymhlith y gadwyn gyflenwi er mwyn sefydlu a datblygu cadwyni cyflenwi byr a marchnadoedd lleol ac ar gyfer gweithgareddau hyrwyddo mewn cyd-destun lleol sy'n ymwneud â datblygu cadwyni cyflenwi byr a marchnadoedd lleol	le	
			cymorth i weithredu ar y cyd gyda'r bwriad o liniaru newid yn yr hinsawdd neu ymaddasu ato ac ar gyfer dulliau gweithredu ar y cyd o ymgymryd â phrosiectau amgylcheddol ac arferion amgylcheddol parhaus	le	
			cymorth i gydweithredu ymhlith y gadwyn gyflenwi ar gyfer darpariaeth gynaliadwy o fïomas i'w ddefnyddio i gynhyrchu bwyd ac ynni ac mewn prosesau diwydiannol	le	

			cymorth ar gyfer strategaethau nad ydynt yn rhai datblygiad dan arweiniad y gymuned	le	
			cymorth i lunio cynlluniau rheoli coedwigoedd neu offerynnau cyffelyb	le	
			cymorth i arallgyfeirio gweithgareddau ffermio yn weithgareddau sy'n ymwneud â gofal iechyd, integreiddio cymdeithasol, amaethyddiaeth a gefnogir gan y gymuned ac addysg ynglŷn â'r amgylchedd a bwyd	le	
			eraill	le	
Erthygl 36	rheoli risg	17	premiwm yswiriant cynyda, anifeiliaid a phlanhigion	Na	Dim symleiddio (dim ond costau gweinyddol sefydlu'r gronfa gydfuddiannol)
			cronfeydd cydfuddiannol ar gyfer digwyddiadau hinsoddol andwyol, clefydau anifeiliaid a phlanhigion, difa plâu a digwyddiadau amgylcheddol	Na	
			adnodd sefydlogi incwm	Na	
Erthygl 40	ariannu taliadau uniongyrchol cenedlaethol cyflenwol i Groatia	18	ariannu taliadau uniongyrchol cenedlaethol cyflenwol i Groatia	Na	
Erthygl 35	cymorth ar gyfer gweithgarwch datblygu lleol LEADER (datblygiad dan arweiniad y gymuned)	19	cymorth paratoadol	le	
			cymorth i roi gweithrediadau o dan y strategaeth datblygiad dan arweiniad y gymuned ar waith	le	
			paratoi a gweithredu gweithgareddau cydweithredol y grŵp gweithredu lleol	le	
			cymorth ar gyfer costau rhedeg a bywiocáu	le	

Erthyglau 51 i 54	cymorth technegol	20	Cymorth technegol (heblaw am y Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol)	le	
			cymorth i sefydlu a gweithredu'r Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol	le	

HANES FERSIYNAU

Fersiwn	Dyddiad	Sylwadau
1	Chwefror 2015	Cyhoeddi Fersiwn 1
2	Awst 2016	Newidiadau i: - Adran 5, Costau uned ar gyfer costau staff buddiolwyr (costau uned yr awr) – er mwyn egluro pryd mae absenoldeb â thâl yn gymwys, h.y. tâl salwch, tadolaeth, mamolaeth, wrth gyfrifo costau staff cymwys yn ystod cyfnod rhoi gweithrediad ar waith - Adran 7, Costau uned ar gyfer cyfraddau staff yr awr – gan alluogi prif fuddiolwyr a chyd-fuddiolwyr yn yr un gweithrediad i ddefnyddio methodolegau gwahanol i gyfrifo’u costau staff - Adran 7, Gweithrediadau sy’n rheoli cynlluniau grant i roi cymorth ariannol uniongyrchol i fentrau neu unigolion (cynlluniau cymorth gwladwriaethol a chefnogaeth ariannol ‘dim cymorth’ – argaeledd costau symlach
3	Mai 2019	Diweddariadau i adlewyrchu newidiadau i Reoliadau’r Cronfeydd Strwythurol yn dilyn mabwysiadu Rheoliadau ‘Omnibws’ 2018.
4	Mehefin 2021	Diweddariadau i adlewyrchu newidiadau i’r nodyn Canllawiau Opsiynau Costau Symlach gan y Comisiwn Ewropeaidd EGESIF_14-0017-02 19 Tachwedd 2020



Am ragor o wybodaeth:

www.cymru.gov.uk

@wefowales /@wefocymru

Desg Gymorth Ymholiadau 0845 010
3355

UNDEB
EWROPEAIDD
EUROPEAN
UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government